

ECO'R WYDDFA

RHIF 379 GORFFENNAF/AWST 2010 PRIS 50c

Yn y rhifyn hwn:

- Côr Dyffryn Peris yn Sbaen
- Beicio Mont Ventoux
- Gari Wyn yn Byw Busnes
- Tlws yr Eco

BUSNESAU LLEOL YN ELWA O GYNLLUN “LLWYDDO” YNG NGWYNEDD

Drwy gynllun cyffrous Llwyddo yng Ngwynedd mae'n bosib y gallwch dderbyn cymorth er mwyn troi eich syniad busnes yn realiti.

Pwrpas y gronfa yw cynnig cefnogaeth ymarferol ynghyd â chymorth ariannol ar gyfer mentrau newydd, boed hwy'n cael eu harwain gan unigolion, cwmnïau newydd, cwmnïau sy'n bodoli'n barod neu grwpiau cymunedol. Caiff y cynllun ei weinyddu gan Gyngor Gwynedd ar ran Partneriaeth Economaidd Gwynedd.

Mae Llwyddo yng Ngwynedd eisoes yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau yma.

Mae Llwyddo yng Ngwynedd yn cael ei weithredu drwy gyfrwng 4 cynllun:

1. MENTRO:

Cyfle i sbarduno mentergarwch ymhlith grwpiau neu unigolion sydd erioed wedi mentro o'r blaen. Mae'r gefnogaeth yn cynnwys:

- bwrsariaeth o hyd at £3,000 (@ 80%) er mwyn treialu neu gychwyn menter newydd
- sesiynau i sbarduno syniadau am fentrau newydd.

2. GALLUOGI:

Cynllun sy'n cynnig cymorth ymarferol i fusnesau newydd, neu fusnesau bach sydd eisoes yn bodoli ond am arallgyfeirio i faes newydd. Mae'r gefnogaeth yn cynnwys:

- cymorth ymarferol i ddatblygu sgiliau a mentora
- cymorth ariannol hyd at £50,000 (@50%)

Siop Cigyn Wavell, Llanrug

Mae siop cigydd Wavell's wedi bod yn fusnes llwyddiannus yn Llanrug ers dros 40 o flynyddoedd. Siop gigydd draddodiadol ydyw yn gwerthu pob math o gigoedd amrwd ac wedi'u coginio, yn ogystal a peis, rholiau selsig, pate a dewis gyffeithiau. Fe brynwyd y busnes gan Bryn ac Angela



Williams yn 2006. Er mai ychydig dros pedair blynedd maent wedi bod yn rhedeg y busnes, maent wedi ennill nifer o wobrau, yn cynnwys y brif wobr yng Nghymru am wneud selsig. Gwnaethpwyd cais i'r Gronfa Galluogi Economi Wledig i ymestyn y siop bresennol er mwyn gwerthu cynnyrch 'delicatessen' gan gynnwys nifer helaeth o gynnyrch lleol, yn ogystal â chynlluniau i ddarparu gwasanaeth arlwyio allanol. Roedd cais Galluogi yn cynnwys cymorth ariannol i ymestyn y siop gan gynnwys offer angenrheidiol i gynnig y gwasanaeth newydd.

Gwynedd Autoparts (Keith Owen)

Roedd Keith eisoes gyda dros 12 mlynedd o brofiad yn rheoli menter tebyg yn y gorffennol, ond gwelodd wagle yn y farchnad nad oedd yn cael ei gyflenwi yn lleol. Penderfynodd Keith sefydlu "Gwynedd Auto Parts / Partiau Ceir Gwynedd"



er mwyn gwerthu darnau ceir i'r farchnad, gan gynnwys dau wasanaeth hollol newydd i Wynedd sef busnesau cyrff ceir (body shop) a trafndiaeth masnachol – gyda'r cyflenwyr agosaf cyn hynny yng Nghaer. Cefnogwyd cais Keith Owen gan gynnig cymorth ariannol ar gyfer cyflenwad o offer angenrheidiol i'r uned fusnes yn Mharc Diwydiannol Cibyn. Roedd y fenter newydd hon yn sicrhau creu nifer uchel o swyddi newydd yng Ngwynedd yn ogystal â chynnig 2 wasanaeth newydd i gymunedau gwledig y sir. (Lluniau ynghlwm)

3. ARLOESI:


Cynllun yn canolbwyntio ar ddatblygu cynnyrch, gwasanaethau a phrosesau arloesol o fewn meysydd amaeth, arallgyfeirio o amaeth, a'r amgylchedd drwy ddatblygu mentergarwch ymhlith teuluoedd sy'n ffermio a busnesau gwledig. Mae'r gefnogaeth yn cynnwys:

- cefnogaeth i ddatblygu syniadau a'u troi'n fentrau masnachol
- ymchwil i'r farchnad ar gyfer cynnyrch a gwasanaethau newydd
- cronfa i gomisiynu gwaith rheoli datblygu technegol a chynllunio busnes manwl

Emlyn Baylis

Mae unigolyn lleol, Emlyn

Baylis, wedi dyfeisio teclyn arloesol sy'n cyfuno elfennau caib ac elfennau rhaw a elwir yn 'The Delver'. Mae'n awyddus i greu menter fasnachol ffyniannus drwy gynhyrchu a marchnata'r ddyfais. Drwy gymorth Arloesi mae'r unigolyn a'r cwmni wedi manteisio ar y cyfle i dderbyn gwybodaeth asesiad marchnad er mwyn cael amcan fwy clir o faint y farchnad cyn dewis y dulliau cynhyrchu mwyaf addas, ynghyd â derbyn cyngor ynglŷn â'r llwybr gorau i gyflwyno'r ddyfais i'r farchnad.



4. CYNNIG GWYNEDD:

Mae'r dulliau uchod o gefnogi mentrau, galluogi busnes presennol i arallgyfeirio, a datblygu syniadau arloesol yn cael ei ategu gan y prosiect Cynnig Gwynedd. Bydd cyfle i gymunedau sydd wedi eu dethol farchnata eu hasedau naturiol a diwylliannol drwy bwyntiau gwybodaeth technegol, a bydd 'theatr y gwyllt' yn cael eu datblygu o fewn tair ardal. Ynghyd â hynny rhoddir cefnogaeth i gynhyrchwyr lleol a chadwyni cyflenwi trwy amryw o ddigwyddiadau a chynlluniau.

parhad ar dudalen 2

ECO'R WYDDFA

RHIF 379

GORFFENNAF/AWST 2010
Argraffwyd gan Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Erthyglau a newyddion
at ohebwyr pentref neu i
Penarth**

Ffordd yr Orsaf
LLANRUG LL55 4BA

Straeon ac erthyglau ar e-bost i
alwenawen@gmail.com
neu Tir Iarll, Llandwrog LL54 5TE
neu storiau@ecorwyddfa.co.uk

**CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH**
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwynhaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS SUL 22 AWST

Os gwelwch yn dda
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU 2 MEDI
Dyddiad Gosod
Nos SUL 29 AWST
Sefydliad Coffa Llanrug

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Rhifyn	Dyddiad Copi i Law	Dyddiad Plygu	Ble
Medi	Awst 22	Medi 2il	Llanrug (y wasg yn plygu)
Hydref	Medi 19	Medi 30	Penisarwaun
Tachwedd	Hydref 1	Hydref 28	Llanberis
Rhagfyr	Tachwedd 21	Rhagfyr 2il	Caethro
Nadolig	Rhagfyr 5	Rhagfyr 16	Ysgol Brynrefail

Llythraau

CANOLFAN CEFNOGI TEULU

Ymddiriedolaeth Cartref
Bontnewydd
Y Bontnewydd
Caernarfon
LL54 7UW

01286 672922 / 671008
01286 674114

gwybodaeth@cartrefbontnewydd.org
Elusen Cofrestredig 517629

Mae Ymddiriedolaeth Cartref
Bontnewydd yn trefnu wythnos
agored rhwng MEHEFIN 28ain
a GORFFENNAF 2il 2010, o
10.00 hyd 4.00 o'r gloch ac mae
croeso mawr i'r cyhoedd gael y
cyfle i weld adeiladau
CARTREF BONTNEWYDD.

Os ydych angen mwy o
wybodaeth mae croeso i chwi
gysylltu â Jean Evans,
Ysgrifennydd yr
Ymddiriedolaeth, ar (01286)
671008 neu 07833637594.

PAT PARRY, CADEIRYDD

THEATR BARA CAWS

yn cyflwyno drama newydd gan
Aled Jones Williams

MERCHED EIRA

Actorion: Gaynor Morgan Rees,
Olwen Rees, Martin Thomas

Cyfarwyddwr: Bryn Fôn

'Tyda ni ddim wedi ein gwneud
ar gyfar paradyddys...' ar draeth
euraid yr oedden nhw i fod,
nid yn crwydro mewn
diffaethwch o eira. Mae'r cwbl
yn ddryswch i Edith ac Edna -
pam fan hyn a pham fel hyn?
Ond, gyda 'hanas yn cyfarth fel
hen gi pan ma hi'n nosi', daw
ambell beth yn fwy eglur a
gyda'r dadmar, y dadrithiad.

Henaint, unigrwydd a brad
cyfrinachau bod sydd wrth
galon drama ddiwethaf Aled
Jones Williams. Unwaith eto
mae ei huodled cyhyrog yn ein
harwain i fannau tywyll yn y
ffyrdd mwya difyr, yn dal
llusern gynnes ar ymyl y dibyn
oeraf un.

CABAN CYF BRYNREFAIL

Wedi ei leol ym mhentref
Brynrefail, ar drothwy'r
Wyddfa, mae caffi Caban yn
cynnig bwyd o'r safon orau am
brisiau fforddiadwy, gan
ddefnyddio cynnyrch lleol a
thymhorol. Yn ystod Rhagfyr
2009 bu Caban yn un o bum
bwyty o fewn y sir fu yn darparu
prydau bwyd o gynnyrch lleol
fel rhan o gynllun Cynnig
Gwynedd. Roedd posib i bobl
gyfnewid talebion gwerth £5 (+
TAW) am brydau bwyd o
gynnyrch lleol megis 'Crempog
y Caban' a 'Cinio Chwarel', a
derbyniwyd 77 o dalebion yn
ystod y cyfnod hwn.

Bydd Caban yn ail gydio yn y
cynllun yma dros fisoedd yr haf
2010, felly cadwch ei llygaid
allan am y talebion!

Am fwy o fanylion yngly ^ n â'r
cymorth sydd ar gael trwy
Llwyddo yng Ngwynedd,
cysylltwch â'r tîm ar 01286
679774 / 679628 neu
Llwyddo@gwynedd.gov.uk



**Stôf Draddodiadol neu FODERN
i gynhesu eich tŷ**



JOHN HUGHES a'i FAB
IARD LO • Carmel • Gwynedd
01286 882160

Hon yw'r ddiweddaraf o
ddramâu Aled i gael ei
chyflwyno gan Gwmni Theatr
Bara Caws ac, fel 'Beth Oedd
Enw Ci Tin Tin', 'Lysh' a
'Sundance', mae addewid o
ddrama sy'n berwi o syniadau, o
ddeialog disglair ac o
weledigaeth eofn a
difyfaddawd.

Wedi perfformio yn Theatr
Beaufort (Glyn Ebwy) yn yr
Eisteddfod Genedlaethol
Blaenau Gwent a'r Cymoedd
(Awst 3-5) fe fydd y cwmni'n
teithio'r ddrama o amgylch
cymunedau Cymru o'r 3 Medi
hyd at 25 Medi.

**Y daith yn cychwyn yn
Galeri Caernarfon ar 3 Medi.**

RHODDION

£25 gan Yvonne Gwyrfaï,
Codsall, Stafford er cof am ei
rhieni, Thomas David a
Barbara. gynt o Ddeiniolen.
Hefyd ei hunig frawd, Dennis
a'i wraig, Nellie, ei chwirydd
a brodyr yng nghyfraith,
Ceinwen a Bill; Betty a Bert;
Lorraine a Bobby a William
Griffiths, gŵr Rhianwen.

£20: Edgar a Pat Jones,
Swyddfa'r Post, Llanrug; Er
cof cariadus am Gwyn, mab a
brawd annwyl - Eifion,
Euronwy, Meilir a Delyth,
Trem Eilian, Brynrefail.

£10: Mrs Megan Morris,
Minffordd, Dinorwig;
Eurwen, 4 Dôl Elidir,
Llanberis; Dilys Baylis,
Llanberis.

£5: Mrs Katie Davies, 5 Hafan
Elan, Llanrug; Dienw
Tanycoed; Carys Williams,
Meini Gleision, Brynrefail

£3: Gwion Jones, Marian
Terrace, Deiniolen; Ann
Jones, Stryd Newton,
Llanberis.

Grantiau Her Iechyd Gwynedd

Mae grantiau o hyd at £4,000 ar
gael ar gyfer grwpiau cymunedol
yng Ngwynedd sy'n cynnal
prosiectau sy'n hybu iechyd a
lles. Yn rhan o ymgyrch Her
Iechyd Gwynedd, mae cyfle i
fudiadau neu grwpiau
cymunedol gyflwyno cais am
arian er mwyn datblygu
prosiectau penodol sy'n
hyrwyddo iechyd a les yn lleol.
Mae Her Iechyd Gwynedd yn
awyddus i ariannu prosiectau
yng Ngwynedd sydd wedi eu
selio ar y themâu canlynol:

- Bwyta'n Iach • Ymarfer egniol
- Iechyd rhywiol • Iechyd
meddwl da • Lleihau ysmygu •
- Lleihau anafiadau i blant •
- Lleihau camddefnyddio alcohol

Mae grantiau rhwng £500 a
£4,000 ar gael. Dyddiad cau 24
Mehefin 2010. Cysylltwch gyda
Llinos Roberts ar
Llinosannroberts@gwynedd.gov.
uk neu 01286 679 433

CROESO I ARDDANGOSFA CHWAREL

FEICWYR?

Aeth blwyddyn a mwy heibio ers i'r pennawd hwn ymddangos yn yr 'Eco', ac ni chafwyd ateb i'r cwestiwn. Mae bron i ddwy flynedd wedi mynd heibio ers i Gyngor Gwynedd wella'n sylweddol wyneb yr hen ffordd o Benllyn heibio i Graig yr Undeb at geg y twnnel. Adeiladwyd ffensys newydd a gosodwyd gataiau arbennig fel y gallai beicwyr barhau â'u taith o Lôn Las Peris ymlaen am Frynrefail. OND - ac y mae angen rhoi'r OND hwn mewn print brasach nac arfer - doedd dim posibl defnyddio'r llwybr beicio newydd hwn oherwydd mai camfa a giât dan glo oedd yn wynebu'r beicwyr rhwng Craig yr Undeb a Phenllyn. Rhwystr sylweddol i deulu, gan y byddai'n golygu codi beics y rhieni a'r plant dros giât neu gamfa!

Fe fyddai rhywun yn disgwyl i'r broblem fod wedi ei datrys bellach - ond NA! Mae'r clo yn parhau ar y giât. Teg gofyn beth fu'r gost i'r trethdalwr am godi ffensys a rhoi wyneb newydd ar yr hen lôn - a hynny ar dir sy'n eiddo i dirfeddiannwr preifat.

Ond na hidiwch. Rwy'n siŵr y bydd holl feicwyr bro'r 'Eco' yn falch o ddeall fod Cyngor Gwynedd yn cysidro prynu tir i greu llwybr beicio milltir o hyd. Yn anffodus, ym Methesda y bydd hyn, er mwyn cysylltu'r pentref â Lôn Las Ogwen. Ac y mae'r Lôn Las honno eisoes yn rhedeg o Borth Penrhyn ym Mangor i Dregarth ac ymlaen heibio'r chwarel am Nant Ffrancon.

Mor wahanol yw'r sefyllfa yn ein dyffryn ni. Gellwch gychwyn yn Llanberis, a methu cyrraedd Cwm y Glo na Brynrefail, ond cewch ddychwelyd i Lanberis!

Beth tybed yw ymateb ein cynghorwyr lleol?

Arddangosfa ffotograffau gan glybiau camerau Dyffryn Ogwen a Blaenau Ffestiniog Amgueddfa Lechi Cymru Llanberis: 21 Mehefin - 3 Medi 2010

Bydd dau glwb camerau o ogledd Cymru yn dod ynghyd yr haf yma yn Amgueddfa Lechi Cymru i arddangos ychydig o'r ffotograffiaeth gwyb yn eu casgliadau.

Mae'r arddangosfa yn cynnwys nifer o'r math o ffotograffau arferol y byddai rhywun yn disgwyl gweld wrth son am 'Chwarel' - delweddau o weithfeydd a lleoliadau diwydiannol, ond hefyd mae'n ceisio edrych yn ehangach ar y thema gan gynnwys elfennau mwy artistig. Esboniodd Ffion James, Cynorthwydd gweithgareddau ar y safle ymhellach:

"Wrth baratoi'r arddangosfa, gofynnwyd i'r clybiau - sydd yn hanu o ardaloedd chwarelyddol - i baratoi amryw o wahanol ffotograffau ar y thema Chwarel - er mwyn cael eu dehongliad nhw ohono. Mae'r ffotograffau y maent wedi paratoi i ni yn portreadu prydferthwch amrywiol diwydiant llechi Gogledd Cymru, ei phentrefi a'i phobl, ei gorffennol a'i phresennol. Mae nhw'n lluniau haniaethol, tirluniau, lluniau o gymeriadau'r chwareli, adfeilion a llawer iawn mwy!"


"Wrth edrych drwy'r casgliadau roedd hi'n ddiddorol gweld elfennau tebyg yn dod i'r amlwg - rhwng y ddau glwb ond hefyd o safbwynt pobol a natur y gwaith. Rydym wedi ceisio dehongli hyn ymhellach yn yr arddangosfa drwy gyferbynnu'r ffotograffau gwahanol. Mae rhai pethau wrth gwrs wedi newid tipyn; mae llawer iawn llai o bobol yn gweithio yn y diwydiannau ac mae iechyd a diogelwch yn llawer iawn gwell erbyn heddiw ond wedi dweud hyn, mae rhai pethau wedi aros yr un fath - mae yna dal gymeriadau lliwgar yn gweithio yn y diwydiant - ac mae'r lechen yn dal i gael ei hollti â llaw greffus y chwarelwyr!"

Meddai Dr Emyr Roberts, Cadeirydd Clwb Camera Dyffryn Ogwen:

"Rydym yn diolchgar iawn i'r Amgueddfa Lechi am y gwahoddiad i gymeryd rhan yn arddangosfa 'Chwarel!'

Mae'n gyfle ardderchog ac unigryw i aelodau ein clwb ddangos eu gwaith mewn arddangosfa broffesiynol o safle uchel."

Mae'r amgueddfa yn awyddus i bobl roi unrhyw ffotograffau y maent wedi eu tynnu sy'n ymwneud â'r thema 'Chwarel' ar y safle wê



ffotograffiaeth Flickr a'u bachu hefo'r tag 'Amgueddfa Lechi Cymru' neu 'llechi'.

Mae'r arddangosfa yn agor ar 21 Mehefin 2010 ac yn rhedeg tan 3

Medi 2010.

Mae mynediad am ddim. Mae mwy o wybodaeth i'w gael ar y safle we:

www.amgueddfacymru.ac.uk

Cinio olaf Caffi'r Sefydliad Coffa



Y cinio olaf yn y Neuadd Goffa, Llanrug. O amgylch y bwrdd mae Cheryl, Alwyn, Kath, Gwen, Ceridwen, Menai, mair ac Olwen. Diolch i Olwen a'r staff am baratoi bwyd blasus i'n cadw i fynd o wythnos i wythnos. Bydd colled fawr i'r pentre, ond pob hwyl i Fenter, y caffi bach yr ochr arall i Lyn Padarn. Cawn fynd yno ar y trênn bwrdd i'w gweld.

SMALA

www.smala.net

cardiau busnes
taflenni
logos
posteri
gwefannau



01286 660 364
07887 654 251

BWRDD YR IAITH
GYMRAEG+WELSH
LANGUAGE BOARD

Modur gan
Lywodraeth
Cymuned Cymru

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

DEINIOLEN

Mrs Nia Gruffudd. Ffôn: (872133)



Diolch yn fawr i Orsaf Betrol Beran am noddi dillad newydd tîm pêl-droed iau Deiniolen. Rhodd gan menter 'Arian yn y gymuned' cadwyn 'Costcutter'.



Llongyfarchiadau i Beca, Cian a Cai am gwblhau wythnos o hyfforddiant sgiliau pêl-droed gyda'r cwmni 'Kick It' yn ystod y gwyliu hanner tymor.

CPD LLANBABO. Mae Clwb Pêl-droed oedolion newydd wedi cael ei sefydlu yn Neiniolen o'r enw CPD Llanbabo. Byddwn yn cymryd rhan yn y gynghrair Caernarfon a'r Cylch, Adran 2, a'r rheolwr fydd Arwel Hughes.

Yn ddiweddar trefnwyd cystadleuaeth i blant Ysgol Gwaun Gynfi i ddylunio logo newydd ar gyfer y clwb a'r enillydd oedd Gwydion Morris, 11 oed o Ddeiniolen. Fe dderbyniodd Gwydion 'hoodie'

efo logo'r clwb a'i 'initials' ei hun arno. Ar hyn o bryd mae'r clwb yn gweithio'n galed i chwilio am noddwyr ar gyfer y tymor newydd sydd yn dechrau ym mis Awst. Os oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn noddi'r clwb neu i ymuno â'r pwyllgor yna cysylltwch efo Urien Huws (Cadeirydd) ar 07590 324712 neu Chris Thomas (Trysorydd) ar 07860 563556. Hefyd mae'n bosibl gyrru e-bost i ni ar: cpdllanbnabofc@googlemail.com



Tîm Pêl-droed dan 7

Llongyfarchiadau i'r tîm am gymryd rhan mewn cystadleuaeth pêl-droed yn ddiweddar. Ni fydd Glyn ac Arwyn yn cario ymlaen i hyfforddi'r tîm yn ystod y tymor nesaf, felly os oes gan unrhyw un ddiddordeb i wneud y gwaith, cysyllter ag un o swyddogion y clwb. Dymuna Glyn ac Arwyn ddiolch i'r plant am eu gwaith caled ac i'r rhieni, perthnasau a ffrindiau am eu cefnogaeth.



GREAT MANCHESTER RUN

Hoffai Urien a Nidian Huws, Rhes Faenol, ddiolch i bawb am eu noddi yn ddiweddar i redeg y Great Manchester Run. Gorffennodd Urien y ras mewn 59 munud, 47 eiliad a Nidian mewn 44 Munud, 15 eiliad. Casglodd y ddau dros £500 tuag at yr elusen MS



Llongyfarchiadau mawr i Gwion Jones, Marian Terrace, am dderbyn gwobr Chwaraewr Gorau o dan 11 oed mewn twrnaint yn Llanfairpwll yn ddiweddar.

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTIÖN • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

**RHOSTIO
MOCHYN**
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol
* Partiön rhwng 40 a 400!
* Gyda saws afal a stwffin mewn
rholiau
* Efo salad hefyd os dymunwch
DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG
Y DYN CIG ar 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718188
Gwefan: www.ydyncig.co.uk

Parhad newyddion Deiniolen

DIOLCH. Dymuna Iwan a Lorraine, Manceinion, ddiolch yn fawr iawn i bawb wnaeth nodd Lorraine i gerdded hanner marathon 'Shine' yn ddiweddar. Casglodd £1,235.00 tuag at 'Cancr yr Ymennydd'. Hefyd dymuna Valmai, 'Hafle', ddiolch i'w noddwyr pan wnaeth y Ras Bywyd yng Nghaernarfon.

DYMUNA Gordon a Glenys, 'Celyn', ddiolch i bawb am y cardiau, arian a'r dymuniadau da am wellhad i Gordon ar ôl ei lawdriniaeth yn Lerpwl.

CYMORTH CRISTNOGOL. Casglwyd £760 yn Neiniolen a Dinorwig tuag at Gymorth Cristnogol. Diolch i bawb a gyfrannodd, ac yn enwedig i'r casglyddion a fu o dŷ i dŷ.

CYMDEITHAS CYFEILLION EGLWYS CRIST. Yng nghyfarfod mis Mehefin o'r Gymdeithas, y siaradwr gwadd oedd Dafydd Morris, Cefn Coch. Tiroedd stad y Faenol oedd ei destun, ac wrth wrando ar Dafydd yn siarad, hawdd oedd gweld bod ganddo doreth o wybodaeth am y tiroedd. Diddorol oedd cael edrych ar fapiau o'r stad a oedd yn dangos y gwahanol gaeau a ffermydd, ynghyd â'r Wyddfa ei hun.

Dr William Munro a arweiniodd y rhan agoriadol o'r noson ddiddorol.

Ar y Sul, 13 Mehefin, y Parchedig John Matthews, Rheithor Llandygai a Maes y Groes, oedd y pregethwr gwadd yn ein Dydd Rhodd. Roedd ei bregeth yn hynod amserol. Diolch i bawb a gyfrannodd ac a gefnogodd y cyfarfodydd.

LLONGYFARCHIADAU.

I Mam a Dad a Taid a Nain, sef Ellis Wyn a Margaret, 6 Ffordd Deiniol, ar achlysur dathlu eich Priodas Aur ar 2 Gorffennaf.

Diolch i chwi am bopeth dros y blynyddoedd.

SIÂN, NIA, MARI A'R TEULU. MERCHED Y WAWR.

Treuliwyd cyfarfod mis Ebill yn ymweld â Stiwdio Sain yn Llandwrog, pryd y cafwyd sgwrs ddifyr gan aelod o'r staff. Soniodd am hanes y lle ers y dechrau a'r enwogion oedd wedi bod yno yn recordio a'r newidiadau mawr oedd wedi digwydd i'r lle ar hyd y blynyddoedd. Diolchwyd iddi gan Brenda, y Llywydd. Ymlaen wedyn i Ty'n Llan, Llandwrog, a phawb yn barod am bryd o fwyd. Chafodd neb ei siomi - cafwyd gwledd heb ei hail.

Dechreuwyd cyfarfod mis Mai gyda Chên y Mudiad a chroesawodd Brenda pawb i'r cyfarfod a llongyfarch Ann

Lloyd ar ddod yn hen nain am y tro cyntaf a hynny i fachgen bach. Hefyd croesawyd hi yn ôl ar ôl iddi fod yn ymweld â'r teulu yn Seland Newydd. Hefyd llongyfarchwyd Buddug ar gael ei gollwng i lawr Tŵr Marcwis er budd y deillion. Da iawn hi.

Gan nad oedd y wraig wadd, sef Marged Roberts, yn gallu bod yn bresennol, manteisiwyd ar y cyfle i ddewis swyddogion am y tymor 2010/11, ond ni fu raid crafu pen gan fod pawb yn fodlon aros yn eu swyddi am dymor arall. Tynnwyd rhaglen allan hefyd am y tymor newydd ac y mae'n argoeli y bydd cyfarfodydd difyr o'n blaenau ac y bydd rhywbeth at ddant pawb.

Penderfynwyd mai trip i Nant Gwrtheyrn fydd i ddiweddu y tymor a phryd o fwyd yng nghaffi Meinir. Erbyn meddwl, efallai nad drwg o beth fyddai cael rhywun i roi sgwrs i'r aelodau ar sut i golli pwysau ar ôl yr holl wleda sydd wedi bod yn ystod y tymor.

Cofiwch, aelodau, bydd cyfarfod cyntaf y tymor nesaf yn cael ei gynnal yn mis Medi ac mae croeso i aelodau newydd ymuno â'r gangen. Bydd digon o hwyl a sbri yn eich disgwyl ac, ia, penderfynwyd yn barod mai trip a phryd o fwyd fydd ar y noson gyntaf.

Bydd manylion pellach yn rhifyn Medi o'r Eco.

CARNIFAL DEINIOLEN A'R CYLCH 2010. Syniad Carwyn Thomas, neu 'Spike' fel rydan ni i gyd yn ei nabod bellach, oedd y Carnifal. Erbyn hyn mae Spike yn Gadeirydd y pwyllgor gyda Arwel Hughes, neu Hughsie, yn Drysorydd. Er fy mod i yn ffrindiau mawr efo'r ddau, dwi yn teimlo mai'r merched ar y pwyllgor ddylai gael y clod mwyaf, sef Sioned Lewis, Sioned Evans, Manon Evans a Lyndsey Pleming. Mae Lyndsey a Manon wedi bod yn gymorth mawr i mi hefyd ers i mi ddechrau fel Ysgrifennydd y Carnifal.

Dechreuodd y Carnifal efo noson Bronto yn Nhafarn y Tarw ym mis Mawrth, gyda Wayne Deemer yn arwain y noson yn wych. Yn dilyn y noson honno, cafwyd noson o hwyl a sbri ar dechrau Ebrill efo Rasys Ceffylau ar sgrin fawr yn Nhafarn y Tarw. Hughsie a Spike oedd y ddau bwci ar y noson efo Sioned Lewis a Manon Evans yn gyfrifol am drefnu'r hamper a'r Cyngorydd Len Jones yn galw allan docynnau yr enillwyr.

Yn fwy diweddar rydym wedi cael noson i ddewis Brenhines y Carnifal, digwyddodd hyn tua

chanol Ebrill yn Nhŷ Elidir efo'r Cyngorydd Len Jones yn galw allan enw'r enillydd. Y ferch fach lwcus y flwyddyn yma yw Kelly Allen, merch i Glenys a Peter Allen, Tai Caradog.

Ga i ddiolch o galon i Lyndsey a'i mam, Hilda, a gweddill merched y pwyllgor, Manon a'r ddwy Sioned. Choeliwch chi byth, yr oedd hi fel Ffair Borth yn Nhŷ Elidir y noson honno. Diolch o galon i bawb a wnaeth yr ymdrech i ddod â'u plant, a chefnogi'r Carnifal yr un ffordd. Diolch hefyd i Eurwyn Jones a drefnodd y disgo i'r plant ar y noson am ddim.

Ar 1 Mai cafwyd noson fythgofiadwy yng Ngwesty Padarn yn Llanberis. John Hartson oedd seren y noson efo Meilir Owen yn arwain y noson yn ardderchog. Fuasai hyn ddim yn bosib o gwbl heblaw am un person, Malcolm Allen. Nid yw Malcolm, yn fy meddwl i, yn cael y ganmoliaeth y mae o'n ei haeddu am ei waith dros y pentref. Canmoliaeth fawr hefyd i Emlyn Cole Jones am fod mor hael ar y noson. Gyda help y ddau ohonynt, cododd y carnifal dros fil o bunnau. Yn yr Ocsiwn, drwy law Malcolm Allen, cafwyd dau docyn i weld Cymru mewn gêm rhyngwladol, crys Gareth Bale, a chafwyd hefyd £350 o gwmni Media Rondo.

Drwy Emlyn Cole Jones, cafwyd set deledu newydd, gwerth tua £900, ond yn mynd yn yr Ocsiwn am £400. Ga i ddiolch o galon i Ieuan Williams am roi cludiant am ddim ar y noson ac hefyd i Raymond, y dyn carioci, am roi ei wasanaeth am ddim.

Diolch i Westy Padarn am adael i ni gael ystafell am y noson. Diolchiadau hefyd i'r busnesau lleol sydd wedi bod yn hael iawn efo'r Carnifal. Bydd llythyrau o ddiolch yn mynd allan yn fuan; trwyddynt yr ydym wedi codi £600.

Y busnesau sydd wedi cyfrannu at y Carnifal i fyny at rŵan yw: Bysiau Ieuan Williams, Tacsis A i B, Ystorfa Padarn (nwyddau haearn), Adeiladwyr G.K., Becws Cwm, Gareth Roberts (ffotograffydd), Gwaith (plymiwr/trydanwr) Vaynol, S.M. Jones (trydanwr), Garej Arfon, Martin Williams (adeiladwyr), Gwilym Williams (gwaith llechi), T. B. Jones a'i dad (adeiladwyr), Robin Thomas (sgipiau), Camre Cymru (Dryll), Dragon (plymiwr/trydanwr), Partiau Ceir Gwynedd, Euryn Roberts (tyllwr a chliriwr), Thomas & Jones (gwydrwyr), Dewi Gibson

(trwsio ceir a loriau), Carwyn Thomas 'Spike' (gwaith to), Simon Williams (scaffaldiwr), Barry Thomas (plastrwr), Tracey Thomas (gwarchod plant), Jason Jones (plastrwr), Emyr Roberts (adeiladwr), Alec Taylor (gwaith ceir), Al Tacsis.

Diolch i bawb wnaeth werth tocynnau tuag at noson John Hartson, yn enwedig Spike a Dewi Rees. Rhai eraill a werthodd oedd Glyn Cynfi, Sioned Lewis, Urien Huws, Wayne Deemer, Tony Pleming, Lyndsey Pleming, Len Jones, Malcolm Allen ac Elfed Williams.

Mae rhaglen y Carnifal yn cael ei gosod at ei gilydd gan Urien Huws, Rhes Faenol, ac mae'r pwyllgor yn hynod ddiolchgar iddo. Urien hefyd fydd Cadeirydd y tîm pêl-droed newydd sydd yn ail-ymuno efo'r Gynghrair ym mis Awst.

Yr ydym wedi cael caniatâd hefyd i ddefnyddio Iard y Seindorf a'r gegin yn ystod wythnos y Carnifal. Diolch yn fawr i Bwyllgor y Seindorf.

Diolch i Siop Llanbabs am helpu allan, yn enwedig ar noson dewis y Frenhines. Diolch hefyd i'r Gymdeithas Golff a Phwyllgor y Bingo. I'r unigolion a aeth allan o'u ffordd i fy helpu fi yn bersonol: Eileen Hughes, Meirion Jones, Emma Pritchard a Geraint Morris.

Diolch o galon i Dafydd Twins am adael i ni ddefnyddio'r Tŷ Tafarn i godi arian tuag at y Carnifal.

Mae criw gweithgar wedi mynd ati i hyfforddi 'majorettes' ar gyfer diwrnod y Carnifal ac mae'r diolch yn mynd i Sioned, Sasha a Sophie am eu gwaith caled gyda'r plant.

Os wyf wedi anghofio enwi, neu wedi rhoi enw anghywir ar rywun, nid wyf wedi gwneud hynny yn fwriadol.

ELFED WILLIAMS

Ysgrifennydd y Carnifal

YSGOL YRRU

ELIDIR
DRIVING SCHOOL

07922121226

Hyfforddwr wedi ei chymeradwyo gan yr ASG

Jacqueline Williams

Gwers Gyntaf, 2 awr am bris 1

CHWILOTA

MWY AM DEULU HEN LÔN

Coeliwch neu beidio, ond mae ymholiad gwreiddiol Kelvin Jones o Fetws y Coed, sawl rhifyn yn ôl, wedi esgor ar doreth o ymateb ynglŷn â theulu'r bwthyn sy'n ddim ond adfeilion bellach. Erbyn hyn, mae disgynyddion y teulu wedi eu darganfod mewn amryw o daleithiau yn America; yn Japan a hyd yn oed ar Ynys Môn!

John Alan Roberts o Benygroes (ond Llanberis yn wreiddiol) a gysylltodd yn datgan ei fod yntau hefyd yn hanu o deulu Hen Lôn, a'i fod mewn cysylltiad â gwraig o'r enw Janice Edwards o Poultney, Vermont, sydd hefyd o'r un llinach. Ei hen, hen daid a nain hi oedd John ac Elinor Jones, a oedd yn byw mewn un rhan o'r tŷ. Ganddi hi y daeth y llun o'r hen gartref a oedd wedi croesi i America gydag aelodau eraill o'r teulu. Mae'n llun digon salw, ond mae'n debyg iddo gael ei dynnu tua 1880. Y gŵr sy'n sefyll yn yr adwy yw John Jones. Dyma felly y tro cyntaf i amryw o ardal Deiniolen weld yr hen dŷ fel ag yr oedd. Mae bellach yn adfeilion. Daeth Janice Edwards drosodd i Gymru yn 1987, ac fe welir o'r ail lun mai twmpath o gerrig oedd yr hen gartref bryd hynny.

Mae'n debyg fod y teulu'n hanu'n wreiddiol o ardal Penrhoslligwy ym Môn, ac iddynt symud i rannau uchaf plwyf Llanddeiniolen yn ystod hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg pan oedd galw mawr am weithwyr yn Chwael Dinorwig.

Tra yng Nghymru yn 1987 daeth Janice Edwards i gysylltiad â'r ddiweddar Nancy

Jones Tudor a'i theulu. Roedd Nancy yn chwaer i daid Janice. Bryd hynny, daeth i gysylltiad hefyd â Mrs May Friebe a'i theulu o Gaergybi, ac aelodau eraill o deulu Hen Lôn ar Ynys Môn, ym Mangor a Phenmaenmawr. Byddai Janice yn falch o gysylltu ag unrhyw aelod o deulu Hen Lôn er mwyn rhannu gwybodaeth am yr achau. Ei chyfeiriad e-bost yw

Cartreftaid@yahoo.com - a gyda llaw, mae'n galw ei hun yn Siani!

Llawer o ddiolch i John Alan am yr wybodaeth ac am y cysylltiad â'r America. Ewch ati rŵan, holl aelodau teulu Hen Lôn i gysylltu â'ch gilydd i rannu gwybodaeth.

Cyfarwyddiadur Gwyliau Y Felinheli

Beth tybed sydd â wnelo llyfryn o'r fath â bro'r 'Eco'? Yn syml, am ei fod yn honni mai'r Felinheli yw'r ganolfan orau i ymweld â'r fro hon! A hynny, mae'n debyg am ei bod yn hawdd cyrraedd yno ar drên neu ar long. Ac, wrth gwrs, mae'r honiad hwnnw yn dyddio'r

llyfryn yn syth.

Un rhan o'r fro hon sy'n cael cryn sylw yn y llyfryn yw Ffynnon Cegin Arthur, ac fe'i disgrifir fel ffynnon o ddŵr haearnidd, a hwnnw mor gynnes â 56 gradd F. Ceir hyd yn oed benillion (yn Saesneg) yn canmol y cwmni oedd yn potelu'r dŵr, sef KANSKO (King Arthur's Natural Springwater Company) a oedd yn gyfrifol am y ffynnon ac am werthu lluniaeth i'r teithwyr a fentra'i yno. Roedd y poteli (i'w hyfed) yn cael eu gwerthu ganddynt am swllt y botel, ond roedd hi hefyd yn bosibl prynu'r dŵr fesul dwy neu dair galwyn er mwyn ymolchi ynddo - prisiau arbennig yn ddibynol ar ble roedd angen eu hanfon!

Yn wir, mae hysbysebion gwahanol westai a siopau yng Nghwm y Glo a Llanberis yn brolio eu bod yn gallu trefnu i fynd ag ymwelwyr i Ffynnon Cegin Arthur, yn ogystal â'u bod yn gwerthu'r dŵr ar ran cwmni KANSKO.

Un cwmni bysiau sy'n hysbysebu yn y llyfryn, sef Bee Motors, Caernarfon. Roedd saith bws y diwrnod yn rhedeg o Gaernarfon i Lanberis gan aros yn Llanrug a Chwm y Glo yn unig. Roedd y bws olaf yn gadael Llanberis am naw yr hwyr yn ôl am Gaernarfon. Yr hyn sy'n rhyfeddol yw'r ffaith fod y cwmni yn hysbysebu 'tripiau wedi eu trefnu'n arbennig' i Lanrug, Cwm y Glo a Phenllyn ar Sadyrnau'n unig - dim sôn am Lanberis!

Mae cwmni D. M. Pritchard, Llanrug, hefyd yn hysbysebu yn y llyfryn, ond garej gwerthu a llogi ceir yn unig oedd hi bryd hynny. Ond mae yntau hefyd yn gallu llogi 'Napier Charabanc' i ddal 16 o bobl am driphau arbennig.

Tybed oes rhywun yn cofio'r triphau charabanc gan D.M.?



Bwthyn Hen Lôn fel yr oedd tua 1880



Janice Edwards ac adfeilion Hen Lôn yn 1987

Phillip Foulkes

CONTRACTIWR PLASTRO

Mewnol • Allanol
Drylining

Plastfyddio Yn Ei Le

Ymgynghori Ac
Amcangyfrif Am ddim



Tel. 07760393155

ebost- phillipfoulkes@hotmail.co.uk

- Priodasau • Dathliadau
- Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
- Pwyllgorau • Bwydlen Bar


THE LEGACY
ROYAL VICTORIA HOTEL
LLANBERIS

wrth droed yr Wyddfa

Ffôn: 0844 411 9003



Yr adeiladau o amgylch Ffynnon Cegin Arthur



Hysbyseb Kansco

Lluniau Llanrug

Daeth tri neu bedwar o hen luniau o Lanrug i'm meddiant yn ddiweddar, a gobeithiaf eu cyhoeddi yn y rhifyn nesaf gydag enwau a pheth o'u hanes.

Colofn fer y mis hwn, ond dyna fo; mae pawb eisiau gwyliau! Mwynhewch y ddeufis nesaf a chofiwch am hanesion neu ymholiadau ar gyfer rhifyn mis Medi. Anfonwch unrhyw wybodaeth i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon, (Ffôn: 01286 673515).

Doethineb y Gwyddel

Yn 'An Gaeltacht' clywais rigwm fod i einioes dyn ei batrwm.

Ugain mlynedd yn egino

Ugain eto i flodeuo

Ugain nesa yn gwargamu

'r ugain olaf - datgymalu.

'Al Gaeltacht' - ardal y siradwyr Gwyddeleg yn y gorllewin. Daw'r ugain mlynedd hefyd i destun llyfr enwog Maurice O'Sullivan, Twenty Years A-Growing. NORMAN CLOSS - FACHWEN

DINORWIG

Marian Jones. Ffôn: (01286) 870291

Ymddiheurwn nad oedd dim newyddion yn yr Eco y mis diwethaf am Ddinorwig ond, oherwydd amgylchiadau personol, nid oedd yn bosib imi ei wneud, ac nid oedd neb arall yn fodlon llenwi y bwlch.

CYFARFOD PREGETHU.

Mae yn arferiad gan y Bedyddwyr bob blwyddyn i gynnal eu Cyfarfod Pregethu ar y Sulgwyn. Eleni cafwyd gwasanaeth llwyddiannus unwaith eto hefo'r Parch Harri Owen Jones, Llanfairpwll yn gwasanaethu am 2.00 y prynhawn. Deallaf fod cynulleidfda dda wedi dod ynghyd. Mae Eglwys Sardis i'w canmol am y llwyddiant y maent yn ei gael trwy gynnal y cyfarfod yma bob blwyddyn. Daliwch ati.

CYMORTH CRISTNOGOL.

Casglwyd £760.00 yn Neiniolen a Dinorwig tuag at Gymorth Cristnogol. Diolch yn fawr i'r ardalwyr a gyfrannodd a diolch hefyd i Miss Marian Jones am fynd i gasglu o dŷ i dŷ. Mae'r elusen yma yn buddsoddi yn yr hyn fydd o les am flynyddoedd. Mae yr arian yn helpu pobl i wella eu bywydau, waeth beth ydyw eu cefndir neu gred.

PEN-BLWYDD.

Llongyfarchiadau i Mrs Megan Morris, Minffordd ar ddathlu ei

phen-blwydd yn 95 mlwydd oed yn ystod y mis a hefyd, cyn y daw'r Eco nesaf o'r wasg fe fydd Mr Andrew Griffiths, Tan y Bwlch yntau wedi cael ei ben-blwydd yn 95 mlwydd oed yn mis Awst. Pen-blwydd hapus i'r ddau ohonoch a gobeithio am iechyd a phob bendith i'r blynyddoedd a ddel.

MARWOLAETH.

Ar y 7fed o Fai, daeth y newydd trist i'r ardal am farwolaeth Mrs Irene Morris, 2 Llys y Gwynt, Penisarwaun yn Ysbyty Gwynedd. Yr oedd Mrs Morris wedi byw am flynyddoedd lawer yn 4 Maes Eilian, ond yn ystod y blynyddoedd olaf bu iddi symud i fyw i Benisarwaun. Bu yn aelod ffyddlon o Eglwys MC Dinorwig tan y bu i'r capel gan yn Mawrth 2000. Bu'r cynhebrwng yn Amlosgfa Bangor ar 14 Mai, a rhoddwyd ei llwch hefo'i diweddar briod ym Mynwent Macpela, Deiniolen. Anfonwn fel ardal ein cydymdeimlad llwyr i'r teulu oll yn eu galar a'u hiraeth.

DIOLCH.

Dymuna Mrs Megan Morris, Minffordd, ddiolch i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau, galwadau ffôn, anrhegion, rhoddion a'r blodau a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 95 oed yn ystod mis Mehefin. Diolch yn fawr iawn i bawb a wnaeth ei diwrnod yn un arbennig.

DIWEDD TYMOR.

Wel, y mae diwedd tymor y colegau a'r ysgolion yn y golwg yn awr. Carem fel ardal ddymuno yn dda i bawb a oedd yn eistedd yr arholiadau a gobeithio am ganlyniadau da i chwi i gyd, ac y cewch fynd ymlaen â'ch addysg fel ag yr oeddych wedi edrych ymlaen i'w wneud. Gwyliau hapus i chwi i gyd a gobeithio am dipyn o dywydd braf a dipyn reit dda o haul. Pob lwc ichwi a byddwch yn ofalus.

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson) CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Carpedi, Llenni a Lloriau Pren



www.fframia.com

FFRAMIA

Parc Padarn, Llanberis

(01286) 870922

www.fframia.com

Gwasanaeth Fframio Lluniau

Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy.



Gwasanaeth Gwres a Plymio

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones • Tyn y Maes • Cwm y Glo LL55 4DH
Tel. (01286) 872225 Mobile- 07798 746718

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

LAWR A LAN I LANDYSUL

I Eglwys Llandysul y teithiodd Côr y Waun ddydd Sadwrn, Mai 15fed, i berfformio Er Hwyllo'r Haul, gwaith Robat Arwyn, gyda'r Unawdwyr, Iwan Parry a Sian Eirian, a'r Llefarydd, Norman Williams, dan arweiniad Iona Ceiriog gyda Ceri Williams yn cyfeilio.

Llywelyn ein Llyw Olaf a'i wraig Eleanor de Montford yw canolbwynt y gwaith, a chyflwynir eu teimladau a'u dyheadau trwy gyfres o ganeuon ysgafn gyda nifer o elfennau o'r Offeren Babyddol wedi eu plethu o fewn y cyfanwaith mewn coffadwriaeth i'r ddau.

Mae'r teitl yn cyfeirio at gywydd marwnad enwog Gruffudd ab yr Ynad Goch i Llywelyn ap Gruffudd sy'n delweddu byd natur wedi mynd o'i go' yn dilyn llofruddiaeth ein Llyw Olaf ger Afon Irfon ym mis Rhagfyr 1282. Er y tristwch a'r teimlad o anghyfiawnder atgoffir ni ein bod yn dal i fodoli dros saith can mlynedd yn ddiweddarach.

Pan ddaeth y gwahoddiad trwy Glenys oherwydd cysylltiadau teuluol, roedd pawb yn unfryd unfarn fod y Côr yn haeddu trip a'i bod yn hen bryd inni ledu ein hadenydd a mentro dipyn ymhellach na gwlad y Cofis a Fic Llanber!

Treuliwyd y cyfnod wedi bwrllwm y Dolig yn ail ymarfer y gwaith a berfformiwyd gyntaf gan y Côr yn y Galeri fis Mai y llynedd. Bwciodd Sam, ein Llywydd, westy ar ein cyfer yng Nghaerfyrddin, ond och a gwae sylweddolwyd ar yr unfed awr ar ddeg fod hon yn benwythnos pererindod blynyddol criw Shambo'r heffar i'r ardal a bod y flaenoriaeth gan y gwesty wedi ei roi iddyn nhw a ninnau yn gorfod teithio ymhellach ar hyd gwlad y Cardis i chwilio am le i

roi ein pennau i lawr.

Fodd bynnag cychwynnwyd yn brydlon o'r Waun ar y bore Sadwrn yng nghwmni ffrindiau a phartneriaid ym mws moethus Express Motors gyda'r dreifar medrus, Tony, wrth y llyw. Hwyllog fu'r daith a blasus oedd y cinio yng Nghwesty'r Parc Aberystwyth cyn inni gyrraedd Eglwys Llandysul ar gyfer yr ymarfer yn y pnawn.

Aeth hwnnw ddim yn rhy sbeshial, a dweud y lleia, a gorfu i Iona siarsio'r Côr i berfformio ei orau glas ar y noson. Rhaid hefyd oedd rhuthro i'n lleoliad newydd sef Gwbert, ger y mor, er mwyn newid a theithio'n ôl mewn da bryd ar gyfer y perfformiad. Daeth siars arall o gyfeiriad Irene, yr ysgrifennydd, mai dim ond amser am 'newid sydyn a spre yma ac acw' oedd ganddom.

Ymhell cyn cyrraedd yr arfordir sylweddolwyd fod gan John Gwynedd gynheddfau arbennig i weld y môr o berfeddion gwlad a dyna pam y gelwir Bae Ceredigion bellach yn Fôr John Gwynedd!! Pe na baech yn adnabod John yn well buasech yn meddwl ei fod wedi sleifio i'r dafarn ger yr Eglwys am un neu ddau neu fwy!!

Er gwaetha'r ymarfer yn y prynhawn roedd y perfformiad gan y tîm i gyd, hyd yn oed yr Wythawd a'r Llefarydd, yn 'olreit on ddis neit' a'r gymeradwyaeth ar y diwedd gyda'r gynulleidfa ar ei thraed yn brawf o hynny. Diolchwyd i bawb gan y Ficer, Y Parchedig Eric Roberts. Cawsom swper blasus a chroeso cynnes gan griw'r Eglwys wedi'r perfformiad cyn dychwelyd i'r gwesty i gwmnia dan berfeddion nos! Ond diflannodd un cwpwl i'w gwllau yn gynt na'r disgwyl - ond dyna fo - chafodd pawb ddim stafell efo ffor postar yn naddo - a heb

enwi neb yn rhyfedd ddigon nhw oedd y cwpwl ola i ymddangos wrth y bwrdd brecwast yn y bora.

Roedd glannau Gwbert yn fendigedig a phawb erbyn hyn yn falch o shiambls Shambo!! Treuliwyd y bore yn crwydro'r clogwyni cyn cychwyn am adref a chinio blasus arall yng Ngwesty'r Parc.

Roedd pawb wedi mwynhau mas draw a chefn Irene, y trefnydd, yn brifo wrth i bawb adael y bws yn fawr eu clod ac yn sôn am y trip nesa - i'r Werddon falla!!

GWEITHGAREDDAU GWYLIAU YSGOL YN Y GANOLFAN ADDYSG AWYR AGORED LLANRUG
Fy enw i yw Mair rydw i yn 9 ac yn mynd i Ysgol Waunfawr. Dros yr hanner tymor yn miS Mai cefais 3 diwrnod ffantastig yn y Ganolfan Addysg Awyr Agored Llanrug.

Ar yr diwrnod cyntaf aethom ni i gerdded ceunentydd wrth ymyl Betws y Coed. Cawsom ddringo creigiau a nofio yn yr afon. Roeddwn yn teimlo yn cyffrous iawn. Aethom ni i Llanberis ar yr ail diwrnod i abseilio a chanwio. Roedd hwn yn llawer o hwyl.

Ar y trydydd diwrnod aethom i gyfeiriannu ar hyd arfordir yn Ynys Môn.

Roeddem i gyd wedi blino yn lân ar ôl yr tri diwrnod, ond cefais amser ardderchog yno. Mae y ganolfan ar agor yn ystod gwyliau'r haf i bawb, a dwi yn gobeithio yn arw gaf i fynd yna eto.

MAIR LOXTON Y CLWB 300. Dyma restr enillwyr y Clwb am fis Mai: £30: Cadi Jones, Nant; £20: Sylvia Thompson, 21 Bro Waen; £10: P.N. Greasley, 7 Pant y Waun.

SEFYDLAID Y MERCHED. Yn y cyfarfod ar 3 Mehefin, croesawodd Catherine Jones, y Llywydd, Mrs Strickland o Dremadog, ein gwraig wadd am y prynhawn. Roedd hi'n arddangos rhai o'r pethau yr oedd wedi eu gwneud yn ystod

y blynyddoedd trwy wahanol ffyrdd o grosio. Hefyd lês wedi ei wneud hefo 'bobbin' a 'hair-pin'. Roedd stori tu ôl i bob un o'r gwaith celfydd iawn. Diolchodd y Llywydd iddi am brynawn diddorol dros ben. Enillwyd y raffl oedd wedi ei wneud gan Mrs Strickland, gan y Llywydd.

Ym mis Gorffennaf, byddwn yn mynd am ein trip blynyddol - y tro yma awn i Lanefydd i weld sut mae'r iogwrt 'Llaeth y Llan' yn cael ei wneud. Gobeithio am ddiwrnod braf - rydym fel rheol yn anlwus iawn hefo'r tywydd! Ni fyddwn yn cyfarfod ym mis Awst ond mae croeso cynnes i aelodau newydd ym mis Medi.

PEN-BLWYDD PRIODAS. Llongyfarchiadau i Roy a Mavis Allan, Pen y Bont, a fu'n dathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar.

Yr un yw'n dymuniad i Gwynfor a Glenys Williams, Ty'n y Weirglodd, hwythau hefyd wedi dathlu eu Priodas Aur.

Dathlu eu Priodas Ruddem y bu Yvonne a David Beech, Rose Mount.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i chi i gyd.

PEN-BLWYDD ARBENNIG. Anfonwn ein cofion cynnes a'n llongyfarchiadau i Miss Katie Roberts, sydd yn byw gyda Dylan a Barbra yn y Felinheli ar hyn o bryd ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 99 mlwydd oed. Un flwyddyn eto i gyrraedd y cant, Anti Katie.

Bu Rhiannon Owen, Tyddyn Prion, yn dathlu cyrraedd ei deunaw oed. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r dyfodol i ti. **GENEDIGAETH.**

Llongyfarchiadau i Carwyn a Tina Humphreys, 11 Ael-y-Bryn, ar enedigaeth mab bychan, Kyle John, brawd i Jason Lee a Kieran Lee ac ŵyr bach newydd i Gwilym ac Angela Parry, Bryn Golau.

Parhad ar dudalen 10

PADARN LAKE

LLANBERIS (01286) 870260



**PRYDAU DA AR GAEL
POB DYDD**

**CANOL DYDD
A GYDA'R NOS**

**Cinio Dydd Sul (CARVERY) rhwng
12.30 a 3.00 o'r gloch**

TE BACH POB DYDD RHWNG 2.30 a 5.00

Cyfleusterau- Bartion • Priodasau ac Achlysuron Arbennig

Cronfa Goffa R. H. Owen

**Gwahoddir ceisiadau am GRANTIAU
o'r Gronfa uchod. Ceir y manylion drwy
anfon amlen gyda chyfeiriad a stamp
arno i'r Ysgrifennydd-**

John H. Hughes

**Tan y Clogwyn Llanberis Gwynedd
LL55 4LF Ffon-(01286) 871562**



**Y CEISIAU i gyrraedd yr Ysgrifennydd
erbyn AWST 31ain. 2010
Ni ystyrir unrhyw gais a ddaw i law
ar ol y dyddiad cau penodedig**



BRAVO CORO DYFFRYN PERIS!

'Tydi o'n hen fyd bychan!' Dyna'r sylw a wnaed rhwng rhai o aelodau Côr Dyffryn Peris a Mair Martinez yng Ngwesty'r Fictoria Llanberis rhyw gwta flwyddyn yn ôl. Roedd Mair, Cymraes, yn wreiddiol o Benrhyndeudraeth, yn arwain grŵp o Sbaenwyr o ardal Malaga i Ogledd Cymru. Bychan yn wir, oblegid ymhen y flwyddyn roedd Côr Dyffryn Peris yn cynnal nifer o gyngherddau yn Andalusia, De Sbaen, a'r cwbl wedi ei drefnu gan Mair. Mae Mair a'i gŵr, Carlos, wedi ymgartrefu yn ardal Malaga.

Cychwynnodd aelodau'r côr yn ystod oriau mân fore Gwener yr Etholiad am faes awyr Manceinion. Roedd cannoedd o deithwyr wedi ymgynnull yn yr un man a hynny ar yr un adeg. Bedlam go iawn, ond diolch am drefniant di-gyffro cadeirydd hynaws y côr, Ifor Jones (Formag gynt), fe lwyddodd i arwain yr aelodau drwy'r anialwch (fel Moses gynt) i ddiddosrwydd yr awyren gyda munud neu ddau wrth gefn! Roedd maes awyr Malaga yn llawer mwy syber a threfnus ac roedd Mair yno i groesawu pawb. Roedd Eryl Roberts, Llanrug, a'i gŵr, Islwyn, ar y daith ac fe ddyblwyd y croeso

gan fod Mair ac Eryl yn ffrindiau mynwsol ers blynnyddoedd. Yn fuan roedd y criw ar y ffordd am Torre Del Mar i ymgartrefu mewn gwesty moethus am weddill yr wythnos. Ar ôl iro'r llwnc â nectar San Miguel aeth y cantorion ati i ymarfer eu rhaglen!

Roedd cyngerdd cyntaf y côr i'w gynnal yn un o ganolfannau Torre Del Mar. Cyngerdd ar y cyd â rhai o ddawnsyr a chantorion yr ardal oedd hwn. Canodd y côr dair cân ynghyd ag unawd gan Ann Williams, y gantores wadd. Cafwyd derbyniad gwresog.

Cafodd pawb yn y neuadd orlawn eu diddanu wedyn gan nifer o bartion dawnsio gwerin lliwgar eu gwisgoedd a rhesiad o gantoresau yn canu yn y dull traddodiadol. Roedd tri pheth yn nodweddu y perfformiadau hyn - llais, gwisg a symudiadau gosgeiddig. Llwyddodd y lleiswyr i greu awyrgylch rhyfeddol gyda rhai o blith y gynulleidfa yn bloeddio rhyw fath o gefnogaeth a hynny ar ganol cân. Byddai rhain wedi cael eu hebrwng allan o gyngherddau yng Nghymru! Daeth y noson i ben gyda'r dawnsyr yn gwahodd rhai i'r

llwyfan i ddawnsio. Y rhai hynaf oedd fwyaf parod i ddawnsio o blith aelodau y côr. Yn wir anghofiodd un am ei ffon yn gyfan gwbl gan neidio ar y llwyfan fel llefnyn ifanc i brancio!

Fore Sul roedd gwasanaeth wedi ei drefnu yn y Salon Picasso yn seler y gwesty. Mair, ynghyd ag aelodau o Eglwys Efengylaidd Torre Del Mar oedd wedi trefnu'r cyfan. Gan fod yr Eglwys yn rhan o Eglwys Efengylaidd Sbaen ac mewn partneriaeth ag Eglwys Bresbyteraidd Iwerddon roedd naws Geltaidd iawn i'r gwasanaeth. Yn dilyn canu Cwm Rhondda aeth pawb i fyny i fwyty'r gwesty i fwynhau 'cinio dydd Sul', sgwrs a gwydriad(au) o win! Syniad i'w roi gerbron y Sanhedrin yn Sasiwn nesaf yr Hen Gorff tybed?

Roedd bore a phrynhawn dydd Llun yn rhydd. Aeth rhai i ymweld ag ogofâu tanddaearol Nerja, rhai i Malaga, rhai i siopa a rhai i dorheulo ar draeth y Costa Del Sol! Roedd hi'n "Fythefnos y Pensiynwyr" yn Sbaen ac ar gais Mair aeth yr aelodau a'u teuluoedd i Velez-Malaga i dreulio noson gymdeithasol mewn goruwchystafell yn y dreflan. Ond cyn hynny cafodd y criw eu tywys i Neuadd y Dref i gael eu croesawu gan Y Maer, Cyngorwyr a Swyddogion y dreflan. Ym moethusrwydd y Siambr cafodd y criw groeso tywysogaidd a hynny mewn tair iaith - Sbaeneg, Saesneg a Chymraeg. Diolchwyr i'r swyddogion am eu croeso gan Ifor Jones a hynny mewn Sbaeneg safonol. Nid rhyw bwt ffwrdd â hi o ddiolch oedd hwn, ond cyflwyniad urddasol a barhaodd am rhyw bum munud. Cyflwynwyd cerflun o'r Ddraig Goch i Mair ynghyd â



Un o'r dawnsyr fflamenco yn un o gyngherddau'r côr

llun cywrain o Ddyffryn Peris wedi ei baentio gan Myfyr Parry, aelod o'r côr. Yn y Siambr hefyd daeth y criw yn ymwybodol o boblogrwydd Mair ymhlith y trigolion. Roedd y swyddogion yn ei pharchu fel arweinyddes reddfol ac addysgwraig benigamp. Yn dilyn y seremoni cafodd y fintai eu tywys o amgylch Velez-Malaga gan alw i weld plasty bychan a fynychwyd yn aml gan Miguel de Cervantes, awdur storïau yr arwr Don Quixote.

Terfynwyd y dydd yng nghwmni trigolion y dreflan yn canu caneuon gwerin Cymru a Sbaen.

Neilltuwyd dydd Mawrth i ymweld â dinas Cordoba yng nghwmni aelodau o'r Eglwys Efengylaidd. Cafodd y rhai a aeth ar y daith agoriad llygad. Nid yn unig cawsant weld y Sbaen go iawn; yn ystod y daith ddwyawr ond cawsant hefyd weld rhan o 'ddinas y teirw' - Cordoba. Ar ôl croesi'r bont hardd dros yr Afon Guadalquivir aeth y fintai i weld y gerddi blodeuog. Cartrefi oedd rhain gyda buarthau caeedig yn llawn o grog bowlenni a photiau pridd yn gyforiog o flodau lliwgar. Oddi yno anelodd y criw am "La Mezquita". Dyma drydedd mosg fwya'r byd! Cychwynnwyd ei hadeiladu gan y Mwriaid mor bell yn ôl â'r flwyddyn 785. Ond erbyn 1236 meddiannwyd y cyfan gan y Cristionogion. Oddi mewn i'r adeilad Mwriaid hwn saif un o eglwysi Cristnogol mwyaf ysblennydd Sbaen. Hyd yn oed heddiw deil rhai Mwslemiaid fod ganddynt yr hawl i addoli yno. Nid oedd aelodau o Gôr Dyffryn Peris am aros i ddadlau dros achos y naill ochr na'r llall!

Roedd dau gyngerdd ar ôl. Un ar y nos Fercher ym Malaga a'r llall ar nos Iau yn Nerja. Ar ôl treulio amser yn cerdded i lawr i Malaga ymgasglodd y côr yn Eglwys Saesneg y dref. Roedd pawb ar eu gorau gan fod



Mair Martinez yn derbyn rhodd o ddraig gan Ifor Jones y Cadeirydd

**Blodau
Lieneke**

**Blodau Priodas
Priodferch
Lleoliad • Byrddau**

Cae Rhydau Pontrug
Caernarfon LL55 2TN

Symudol 7510 511 631

Gwefan- <http://www.blomstervill.no>

E-bost- blomstervill@robin.no

WAVELL'S

Bryn ac Angela Williams

London House, LLANRUG

Ffôn:

(01286) 673574

PEN CIGYDDION Y FRO

Yr Wŷn lleol mwyaf blasus,
Selsig cartref
Cigodd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

**MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!**



Prif gyngerdd y Côr

awcwstic yr adeilad yn berffaith. Crewyd awyrgylch anhygoel y noson honno gyda'r gynulleidfa yn amlwg yn mwynhau. Ond yr un a ymhyfrydai fwyaf yn llwyddiant y noson oedd Dafydd Roberts, yr arweinydd. Nid yn unig yr oedd wedi cael gwefr o wrando ar y côr ond hefyd roedd perfformiad ei chwaer, Ann, gyda Rhian Jones yn cyfeilio o'r safon uchaf. Uchafbwynt cyfraniad y côr oedd yr 'American Trilogy' gyda Hefina Jones ar y piano ac Iwan Wyn Williams yn ymuno i mewn ar organ yr eglwys. Moment i'w sawru ac orig a bery am byth yn y cof.

Ar ôl pryd o fwyd blasus yn Torrox ac ymweld â'r pentrefi gwynion rhyfeddol sy'n nodweddu'r ardal, rhaid oedd ymgynnull yn y Centro Cultural Villa de Nerja i ymarfer ar gyfer y cyngerdd olaf. Roedd theatr y Ganolfan Ddiwylliannol hon yn fawr ac yn foethus ond nid oedd yr awyrgylch sain crystal â'r

eglwys. Ond ar ôl cael cynulleidfa fawr o'u blaenau y noson honno fe lwyddodd y côr, Ann a Dafydd i'w swyno unwaith eto. Roedd cyflwyniadau Mair mewn tair iaith yn ychwanegu at y perfformiadau.

Er ei bod wedi bod yn wythnos brysur, anfoddog iawn oedd pawb i ymadael am Faes Awyr Malaga. Er fod llwch llosgfynydd Gwlad yr Ia wedi bygwth ddiwrnod ynghynt i gadw'r côr yn Sbaen am wythnos ychwanegol, rhaid oedd ymadael. Dysgodd aelodau'r côr lawer am draddodiadau Sbaen ar y daith hon, yn arbennig eu dulliau o gyflwyno prydau bwyd. I chwi sy'n anelu am Sbaen yr haf yma byddwch yn ofalus pan yn ordro Kebab - maent yn enfawr! I chwi sydd am gael cawl cofiwch fod dau fath ar gael - un poeth ag un oer! Dim iws cwyno! Ond stori arall ydi honno!



Ann yn cael rhosyn ar ei phen-blwydd gan Dafydd y gŵr ac arweinydd y côr

**Peidiwch â gori ar stori!
Cysylltwch â'ch gohebydd lleol**

Angen gweithwyr i helpu gyda'r 'ECO'
Cysylltwch â'r Cadeirydd

Parhad newyddion Waunfawr o dudalen 8

LLONGYFARCHIADAU i Mrs Mary Jones, Llwyn Afon, ar ddod yn nain. Ganwyd mab, Iago Rhys, i Anwen a Jim, brawd bach i Mali Rhys.

ADREF O'R YSBYTY. Croeso adref i Arnold Roberts, Stad Bryn Golau, wedi iddo gael llawdriniaeth i'w droed. Anfonwn ein cofion hefyd at Colin Rowlands, Ty'n Coed, wedi iddo dreulio cyfnod yn yr ysbty. Dymunwn wellhad buan i Mrs Lesley Williams, Stad Tŷ Hen, wedi iddi hithau orfod treulio cyfnod yn yr ysbty. Croeso adref hefyd i Siôn Emyr, Dôl Gwyrfa, wedi iddo dderbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Dymunwn wellhad buan hefyd i Ashon Leggett, Gwynant, wedi iddo gael triniaeth i'w lygaid mewn ysbty yn Lerpwl.

Gobeithiwn y byddwch oll yn gwella ac yn cryfhau yn fuan.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mrs Alice Hughes, Bryn Golau, sydd yn yr ysbty ar hyn o bryd, ac at Llywela Morris, Tref Eilian.

Anfonwn ein cofion hefyd at Mrs Jane Roberts, Bro Waun, wedi iddi ddisgyn a brifo ei phen-glin, ac at Gwyndaf Dale, Stad Tŷ Hen, wedi iddo ddisgyn a thorri ei fraich.

DYMUNWN yn dda i Dr Yaseri Allan, Bryn Golau, yn ei swydd fel Deintydd ym Manceinion. Llongyfarchiadau iddi ar lwyddo yn yr arholiadau.

CYDYMDEIMLWN yn ddwys â Mrs Grace Dawson, Tref Eilian, a'r teulu yn eu profedigaeth o golli chwaer Grace, Llinos, yn ddiweddar.

Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf hefyd at deulu Cil-y-Mynydd yn eu profedigaeth o golli mam Veronica yn ddiweddar.

DIOLCH. Dymuna Veronica a'r teulu ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth. Diolch i feddygon Waunfawr a'r nyrsys cymunedol am eu gofal arbennig.

GWASANAETH Y CAPEL.

Gorff 4: Mr Glyn Owen

11: Gweinidog: Parch Gwenda Richards

18: Parch Angharad Roberts

25: Gweinidog, Parch Gwenda Richards

Drwy mis Awst:

Uno yn Seilo, Caernarfon.

Medi 5: Parch S.O. Hughes

12: Gweinidog, Parch Gwenda Richards

Dymunwn wyliau haf hapus i chi i gyd.

Siop Waunfawr

(Howard a Debbie)

**Pay Point, Papur Newydd,
Cardiau Cymraeg, Cylchgronau,
Bwydydd, Nwyddau Tŷ**

Ffôn: **(01286) 650834**

Diolch am gefnogi'r fenter newydd

ar agor **7.30 - 6.30**

8.00 - 6.00 (Sadwrn)

9.00 - 12.00 (Sul)

e-bost: siopwaunfawr@live.com

GERAINT OWEN CARPEDI

CARPEDI • VINYLs • TEILS

**CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK**

**Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfa Mill Bontnewydd**

(01286)650552 Mob. 07712779475

YSGOL BRYNREFAIL

HAIRSPRAY

Bydd Ysgol Brynrefail yn cyflwyno'r sioe gerdd 'Hairspray' dros ddwy noson, nos Fawrth, 13eg Gorffennaf a nos Fercher, 14eg Gorffennaf 2010. Bydd y sioe yn dechrau am 7-30y.h. ar y ddwy noson. Gellir prynu tocynnau gwerth £7 neu £5 o swyddfa'r Ysgol o flaenllaw'r perfformiadau.

DYLUNIO A THECHNOLEG LEFEL A

Byddai Richard Lloyd Jones wrth ei fodd yn eistedd yn heddy gadair hardd hon sydd o waith prosiect lefel A ac yn perthyn i Cai Jones. Dechreuodd Cai ei waith trwy ysgrifennu crynodeb i'r bwrdd arholi yn amlinellu ei fwriad i greu cadair pren yn seiliedig ar gynlluniau Celtaidd. Bu llawer o waith ymchwil hefyd ar batrymau Celtaidd cyn gosod yr oll ar bapur yn gynllun gorffenedig. Tra yr oedd hyn i gyd yn digwydd yr oedd y coed y bwriadai ddefnyddio yn sychu dros gyfnod o dri mis. Yna bu rhaid gwneud y gadair ac fe gwblhawyd y gwaith mewn chwe wythnos - camp yn wir!

Mi fyddwn i'n hoffi betio nad oes gan Richard gadair sydd â silff ynddi i ddal ei banad te na bwrdd bach i ddal ei blât o fara brith sydd a'i gartref dan sedd y gadair.



SBOTOLAU AR: REBECA PARRY



Dydi 'neidio ceffylau' rhywsut ddim yn gwneud cyfiawnder gyda'r hyn y

mae Rebeca Parry wedi bod mor llwyddiannus ynddo. Ond yr ydym i gyd yn gyfarwydd gyda'r gair 'show jumping'. Fe neidiodd ein gohebydd i gael gair gyda hi.

Pryd wnest di ddechrau reidio ceffylau?

Fe ddechreuais pan o'n i'n un ar ddeg oed cyn i mi ddod i Frynrefail gyda cheffyl gwyn (Connemara) o'r enw Misty.

A phryd felly wnest ti ddechrau neidio ceffylau?

Am nad oedd gennym dir adref dechreuais 'showjumping' mewn stablau yn Eryri pan o'n i'n ddeuddeg oed a'r ornest gyntaf oedd yn Brynderw pan

o'n i'n ail yn y gystadleuaeth. Pan o'n i'n dair ar ddeg cynrychiolais Gwynedd mewn cystadleuaeth ac yn bedair ar ddeg oed yr oeddwn yn ail yng Ngwynedd ac yn aelod o'r tîm ddaeth yn 3ydd. Erbyn hyn yr oedd gennyf geffyl newydd China (Swedish Warm Blood).

Ar ôl llwyddiant mor sydyn sut mae dy yrfa wedi datblygu?

Wel rwyf wedi cystadlu dros Gymru ers yn bymtheg oed a'r gystadleuaeth gyntaf yn Uttoxeter yn erbyn holl wledydd Prydain Unedig ac fe lwyddais i ddod yn 9fed yn y gystadleuaeth

Ac o hynny ymlaen?

Cefais fy newis i fod yn aelod o dîm Cymru eto eleni wedi treialon yn Aintree, Lerpwl, ond yn anffodus cafodd fy ngheffyl niwed ar y ffordd i'r gystadleuaeth. Fy nod yn y dyfodol yw cyrraedd cystadleuaeth 'The Horse of the Year' yn y gystadleuaeth i rai dan18.

CYRSIAU HAMDDEN

Pob prynhawn dydd Llun, dros gyfnod o chwe wythnos y mae disgyblion blwyddyn 10 yn blasu cyrsiau hamdden pryd y maent yn cael cyfleu i flasau prynhawn cyfan ar y gweithgareddau canlynol:

Beicio, Hunan Amddiffyn, Dringo, Tennis, Cyfeiriannu a gweithio yn yr Ystafell Ffitrwydd.

Pe welsoch chi griw anferthol o feicwyr yn reidio o Benygroes hyd Gaernarfon, trwy ddefnyddio Lôn Eifion, yn ôl pob tebyg ein criw ni oeddynt.

A pheidiwch, da chi, ac ymosod ar un o'r disgyblion hyn oherwydd, fel y gwelwch o'r lluniau maent wedi bod yn dysgu ac ymarfer eu sgiliau hunan amddiffyn o dan gyfarwyddyd y 'Sensei', sydd ei hun yn gyn-ddisgybl ym Mrynrefail.

A beth am ddringo i'r adwy? Wel bydd disgyblion Brynrefail yn gallu dringo'n llawer iawn uwch na chi!

Diolch i holl staff yr Ysgol a'r arbenigwyr allanol fu'n cynorthwyo blwyddyn 10 a mawr obeithiwn y byddant wedi darganfod diddordeb newydd fydd yn eu gogleisio am flynyddoedd hir.



MABOLGAMPAU

Ar ddydd Gwener 21ain o Fai, a hithau'n ddiwrnod heulog, poeth, di-gwmwl daeth holl ddisgyblion ac athrawon Ysgol Brynrefail ynghyd i ddathlu mabolgampau 2010.

Bu cystadlu brwdfrydig ym mhob cystadleuaeth ac ambell i record yn cael ei chwalu. Ond y

peth mwyaf pleserus oedd gweld pawb oedd yn cystadlu yn rhoi o'u gorau a'r gynhaliath frwdfrydig a theg gan gyfoedion.

Eleni, Eilian gipiodd y tlws gyda 989 o bwyntiau, Gwyrfa'i yn ail gyda 944, Elidir yn drydedd gyda 893 ac Eryri yn bedwerydd gyda 788



Ar ddiwedd y dydd cyflwynodd y pennaeth, Mr Eifion Jones, y gwpan i gapteiniaid y tî buddugol, Eilian, sef Anya Price a Darren Jones

Canlyniadau Mabolgampau Ysgol Brynrefail 2010



Bechgyn Blwyddyn 7

100m - 1. Cian McDermot; 2. Peter Mansoor; 3. Steffan Jones
200m - 1. Cian McDermot; 2. Dafydd Llywelyn; 3. Steffan Jones

800m - 1. Dafydd Llywelyn; 2. Guto Pierce; 3. Steffan Jones
1500m - 1. Dafydd Llywelyn; 2. Guto Pierce; 3. Rhydian Williams

Ras Gyfnewid - 1. Eilian; 2. Eryri; 3. Gwyrfa; 4. Elidir
Shot - 1. Callum Hanks; 2. Jordan Eade; 3. Callum Minton
Disgen - 1. Rheinallt Hedd; 2. Dion Roberts; 3. Callum Minton

Picell - 1. Rheinallt Hedd; 2. Callum Hanks; 3. Ryan Fergusson

Naid Hir - 1. Dafydd Llywelyn; 2. Jordan Eade; 3. Guto Pierce
Naid Driphlyg - 1. Dafydd Llywelyn; 2. Peter Mansoor; 3. Guto Pierce

Naid Uchel - 1. Owain Hughes; 2. Jordan Eade; 3. Dion Roberts
/ Daniel Lewis / Owain Williams

Genethod Blwyddyn 7

100m - 1. Lois Regan; 2. Alaw Prys; 3. Kerry Meek

200m - 1. Lois Regan; 2. Alaw Prys; 3. Kerry Meek / Catrin Griffiths

800m - 1. Lois Regan; 2. Alaw Prys; 3. Katie Lloyd

Ras Gyfnewid - 1. Eilian; 2. Eryri; 3. Gwyrfa; 4. Elidir
Shot - 1. Katie Lloyd; 2. Catrin Jones; 3. Lea Griffiths

Disgen - 1. Elen Roberts; 2. Robin Bernie; 3. Nia Roberts

Naid Hir - 1. Katie Lloyd; 2. Kate Humphries; 3. Alaw Prys
Naid Uchel - 1. Lois Regan; 2. Anest Jones / Katie Lloyd; 3. Alaw Prys.

Bechgyn Blwyddyn 8

100m - 1. Tom Saynor; 2. William Gwynedd; 3. Rhun Williams

200m - 1. Tomos Saynor; 2. William Gwynedd; 3. Richard Jones

300m - 1. Rhys James; 2. Lee Williams; 3. Tomos Humphreys
800m - 1. Rhys James; 2. Tomos Saynor; 3. Rhun Williams

1500m - 1. Rhys James; 2. Tomos Saynor; 3. Richard Jones
Ras Gyfnewid - 1. Eryri; 2. Elidir; 3. Gwyrfa; 4. Eilian

Shot - 1. William Gwynedd; 2. Mathew Jones; 3. Iwan Jones
Disgen - 1. Dafydd Williams; 2. Ifan Roberts; 3. Sion Jones

Picell - 1. William Gwynedd; 2. Mikey Horton; 3. Sion Jones
Naid Hir - 1. Rhun Williams; 2. Ryan Richards; 3. Tomos Saynor

Naid Driphlyg - 1. Tomos Saynor; 2. Rhun Williams; 3. Rhys James

Naid Uchel - 1. Rhun Williams; 2. Jordan Sibley; 3. Daniel Land / Gethin Jones

Genethod Blwyddyn 8

100m - 1. Manon Thomas; 2. Catrin Ellen Jones; 3. Ela Owen

200m - 1. Catrin Ellen Jones; 2. Mari Gibbard / Ela Owen; 3. Iola Jones

800m - 1. Mari Gibbard; 2. Mari Tachwedd; 3. Mannon



Thomas

1500m - 1. Mari Gibbard; 2. Mari Tachwedd; 3. Mannon Thomas

Ras Gyfnewid - 1. Eilian; 2. Gwyrfa; 3. Elidir; 4. Eryri

Shot - 1. Ela Owen; 2. Beca George; 3. Angharad Jones

Disgen - 1. Ela Owen; 2. Elinor Lampard; 3. Beca George

Picell - 1. Shannon Owen; 2. Hanna Tulliver; 3. Beca George

Naid Hir - 1. Manon Thomas; 2. Ela Owen; 3. Catrin Elen Jones

Naid Uchel - 1. Catrin Elen Jones; 2. Mari Gibbard; 3. Shannon Owen / Glesni Parry

Bechgyn Blwyddyn 9

100m - 1. Aneurin Jones; 2. Huw Owen; 3. Aled Jones

200m - 1. Aneurin Jones; 2. Aled Jones; 3. Iolo Hughes

300m - 1. Aneurin Jones; 2. Dylan Hughes; 3. Sion Roberts

800m - 1. Huw Owen; 2. Aneurin Jones; 3. Iolo Hughes

1500m - 1. Iolo Hughes; 2. Huw Owen; 3. Kurt Hellfeld

Ras Gyfnewid - 1. Eilian; 2. Gwyrfa; 3. Elidir; 4. Eryri

Shot - 1. Robat Owen; 2. Sion Evans; 3. Sion Powell

Disgen - 1. Kurt Hellfeld; 2. Sion Powell; 3. Ian Darwood

Picell - 1. Sion Evans; 2. Thomas Evans; 3. Huw Owen

Naid Hir - 1. Iolo Hughes; 2. Huw Owen; 3. Aled Jones

Naid Driphlyg - 1. Huw Owen; 2. Ian Darwood; 3. Aled Jones

Naid Uchel - 1. Huw Owen; 2. Iolo Hughes; 3. Thomas Evans / Mathew Humphreys.

Genethod Blwyddyn 9

100m - 1. Kate Pritchard; 2. Elin Thomas; 3. Diion Jones

200m - 1. Kate Pritchard; 2. Rebecca Parry; 3. Elin Thomas

800m - 1. Kate Pritchard; 2. Clair Donnelly; 3. Molly Thomas

1500m - 1. Kate Pritchard; 2. Rebecca Parry; 3. Claire Donnelly

Ras Gyfnewid - 1. Elidir; 2. Eilian; 3. Gwyrfa; 4. Eryri

Shot - 1. Tracy Reeve; 2. Lauren Fraser; 3. Catlin Bell Rennie

Disgen - 1. Kim Jones; 2. Chloe Roberts; 3. Katie Roberts

Picell - 1. Katie Roberts; 2. Lois Jones; 3. Kelsey Collins

Naid Hir - 1. Fflur Hughes; 2. Elin Thomas; 3. Kate Pritchard

Naid Driphlyg - 1. Kate Pritchard; 2. Rebecca Parry; 3. Claire Donnelly

Naid Uchel - 1. Tracy Reeve; 2. Rebecca Parry; 3. Molly Thomas

Bechgyn Blwyddyn 10

100m - 1. Rhodri Williams; 2. Tomos Williams; 3. Osian Kingston

200m - 1. Andrew Hughes; 2. Osian Kingston; 3. Rhodri Williams

300m - 1. Osian Kingston; 2. Rhodri Williams; 3. Hugo Moss

800m - 1. Osian Kingston; 2. Alfie Watling; 3. Andrew Hughes

1500m - 1. Josh Robinson; 2. Alfie Watling; 3. Lloyd Hughes

Ras Gyfnewid - 1. Eilian; 2. Gwyrfa; 3. Eryri; 4. Elidir

Shot - 1. Joseff Williams; 2. Rhys Jones; 3. Dylan Roberts

Disgen - 1. Rhys Jones; 2. Ifan Jones; 3. Mathew Jones

Picell - 1. Mathew Jones; 2. Ifan Jones; 3. Dylan Roberts

Naid Hir - 1. Rhodri Williams; 2. Andrew Hughes; 3. Tomos Tulliver

Naid Driphlyg - 1. Osian Kingston; 2. Rhodri Williams; 3. Gwion Roberts

Naid Uchel - 1. Gwion Roberts; 2. Dylan Roberts; 3. Lloyd Hughes

Genethod Blwyddyn 10

100m - 1. Awel Hughes; 2. Elaine Roberts; 3. Ceri Roberts

200m - 1. Emma Roberts; 2. Elaine Roberts; 3. Llio Emyr

800m - 1. Megan Lloyd; 2. Emma Roberts; 3. Llio Emyr

1500m - 1. Megan Lloyd; 2. Llio Emyr; 3. Ceri Roberts

Ras Gyfnewid - 1. Elidir; 2. Eilian; 3. Gwyrfa; 4. Eryri

Shot - 1. Arianne Preston; 2. Stacey Williams; 3. Sophie Thomas

Disgen - 1. Sophie Williams; 2. Ffion Williams

Picell - 1. Ceri Roberts; 2. Sophie Thomas; 3. Derri Sinclair

Naid Hir - 1. Awel Hughes; 2. Megan Lloyd; 3. Emma Roberts

Naid Driphlyg - 1. Awel Hughes; 2. Anna Jones; 3. Elaine Roberts

Naid Uchel - 1. Elaine Roberts; 2. Ceri Roberts; 3. Awel Hughes



CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

UNDEB Y MAMAU. Y mae ein cyfarfodydd am y tymor wedi dod i ben. Mis Ebrill cafwyd sgwrs ddiddorol gan y Canon Meirion Jones. Cafwyd cyfarfod ar bawn Mawrth, 18 Mai, ac ar ôl trafod rhai materion cafwyd amser i brynu oddi ar y stondin Moes a Phrys.

Cynhelir Gŵyl Flodau yn y Gadeirlan, Bangor, ar 1-4 Gorffennaf. Gwasanaeth yr Wyl ar 1 Gorffennaf am 2.00 o'r gloch. Cangen Llanbeblig sydd yn gofalu am y trefniant blodau o flaen yr allor a threfnwyd noson goffi, nos Lun, 7 Medi, i godi arian i brynu'r blodau. Bydd y cyfarfodydd yn ail-ddechrau ym mis Medi.

ADFERIAD BUAN. Dymunwn wellhad llwyr a buan i Mrs Dee Edwards, Wrth y Becws, ar ôl damwain yn ei chartref.

DIWEDD TYMOR. Dyma dymor yr arholiadau wedi dod i ben, gan obeithio am ganlyniadau da i bawb oedd yn eu heistedd. Gwyliau dedwydd i bawb a gobeithio am dywydd braf a digon o haul.

MARWOLAETH. Yn dawel yn ei gartref, Llwyn Onn, bu farw Mr Edward Jacob Rogers (Eddie) yn 84 mlwydd oed. Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf â'r plant, Phillip, Elsa-Mary, Sandra, Christopher ac Eleanor a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl.

YSGOL CWM Y GLO. Unwaith eto mae gennym restr faith o weithgareddau mae'r ysgol wedi bod yn rhan ohonynt, ac rydym yn cymryd y cyfle i ddiolch i'n gwirfoddolwyr parod o blith y rhieni sy'n fodlon dod gyda ni ar ymweliadau a gweithgareddau oddi ar dir yr ysgol.

Bu dosbarth Llydaw draw i Ganolfan y Fenai gyda Mr. Jackson am ddiwrnod prysur o

weithgareddau ar lannau'r Fenai yn ddiweddar. Yna cawsant brynhawn yng Nghae'r Gors yn cael profiad o fywyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd Aeth yr adran iau draw i Ganolfan Alwen yng Ngherrigydrudion am ddiwrnod o weithgareddau gwyddonol.

Mwynhaodd dosbarth Peris gwmni Mrs. Eluned Thomas o Ganolfan Cae'r Gors un bore Gwener. Canodd nifer o hwiangerddi traddodiadol gyda'r plant ac roedd pawb yn mwynhau. Diolch yn fawr.

Daeth athrawon Ysgol Brynrefail draw i drafod gyda'r plant sy'n trosglwyddo atynt yn mis Medi, cyn i'r plant dreulio diwrnod yno. Daeth pob un yn ôl yn llawn brwdfrydedd! Yr un diwrnod, cawsom bleser cwmni ein plant Meithrin yn yr ysgol trwy'r dydd a chyfarfod y plant fydd yn cychwyn gyda ni yn Medi. Diwrnod llwyddiannus iawn gyda phawb yn edrych ymlaen i Fedi!

Mae'r ysgol wedi cystadlu mewn nifer o gystadlaethau chwaraeon - criced yng Nghaernarfon, mabolgampau'r Urdd. Ein diolch i Miss Jones am hyfforddi y plant a'n llongyfarchiadau i bawb!

Bydd disgyblion Blwyddyn 6 yn treulio pob prynhawn Iau yn hyfforddi ar gyfer tystysgrif beicio yn ddiogel o dan oruchwyliaeth Rhian Whiteside Jones.

Un prynhawn Mawrth braf, cafwyd Ffair Haf brysur ar yr iard, wedi ei threfnu gan Gyfeillion yr Ysgol. Diolch yn fawr i bawb sy'n cefnogi eu gweithgareddau - cofiwch y plant sydd yn elwa o'u hymdrechion i godi arian! 'Y Raffl Fawr' sydd nesaf ar eu rhestr - mae digon o docynnau ar gael yn yr ysgol os ydych eisiau cefnogi!



Finlay, Ollie, Cai, Leo, Owen a Gethin (y tîm buddugol yn y gystadleuaeth model pŵer solar).



Owen a Leo oedd yn fuddugol yn y gystadleuaeth gyfeiriannu - gan guro timau o'r ysgolion uwchradd!

Llythyr

Mr. Garem Jackson B.Add.
CPCP / B.Ed. NPQH
01286 870860

pennaeth@cwmyglo.gwynedd.sch.uk

At rieni/gwarcheidwad plant
dosbarth Marchlyn

Annwyl riant/warcheidwad Parthed Diwrnod Pŵer Solar Ysgrifennaf i rannu newyddion da â chwi! Fel y gwyddoch, bu'ch plentyn ym Mhlas Menai ddoe yn gwneud cyfres o weithgareddau oedd yn cynnwys adeiladu model pŵer solar a chyfeiriannu. Pleser o'r mwyaf yw cael dweud bod plant

Ysgol Gymuned Cwm o Glo wedi gweithio'n wych gydol y dydd - a bod un tîm o blant wedi ennill y gystadleuaeth creu model pŵer solar (ysgolion cynradd), a thîm arall wedi ennill y gystadleuaeth gyfeiriannu (ysgolion cynradd ac uwchradd!). O ganlyniad, bydd un o'r plant yn ymddangos ar y rhaglen deledu 'Ffeil' y prynhawn yma, a llun ac erthygl am y plant yn ymddangos yn y Daily Post yn y dyddiau nesaf.

Hyderaf eich bod mor falch o'r plant a'u llwyddiant ag yr ydym ni yma yn yr ysgol!

Garem Jackson

Caffi Caban

ar Agor

9 y bore tan 4 y pŵn - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail

www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org

01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

Caban
Cyf

POSH PAWS

TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu
NOSWEITHIAU 4-10

DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Dawhon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07565791010

ebost- juliaposhpaws@btinternet.com



ORIEL
CWM
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math

ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau

gwreiddiol gan

Artistiaid Lleol

Richard S. Humphreys

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

CLWB BRO BETHEL. Ar ddiwrnod hynod o braf aeth 30 o'r aelodau ar daith i ddiweddu'r tymor. Terfyn y daith oedd Betws y Coed ond cyn hynny roedd pawb wedi mwynhau trip ar y tren o Borthmadog i Flaenau Ffestiniog a rhyfeddu ar y golygfeydd godidog. Yna yn ôl ar y bws gan ddilyn yr A470 dros y Crimea i Fetws y Coed. Cyn troi am adref mwynhawyd pryd o fwyd blasus gan bawb yng Ngwesty y Royal Oak. Diolchwyd i Ann Ellis Williams ac Ivy Wright am yr holl drefniadau gan Myra Griffith, a diolchodd y Parchedig Marcus Wyn Robinson i Staff y gwesty am ofalu dros bawb, a hefyd anfonwyd cofion at y Llywydd sef y Prifardd Selwyn Griffith. Bydd cyfarfodydd y Clwb yn ail gychwyn ym mis Medi.

MERCHED Y WAWR. I ddiweddu gweithgareddau am eleni aeth yr aelodau am swper i Dafarn y Gors, Pentre Berw lle cafwyd croeso twymgalon gan y perchennog a'r staff. Atgoffwyd pawb am y Bore Coffi dan nawdd Pwyllgor yr Anabl ac am y daith gerdded noddedig yn Llandudno. Roedd cyfle i archebu Cardiau Nadolig ond os oes rhywun yn dymuno archebu ac heb wneud, rhwch wybod i Margaret Druce. Diolchodd Mair Read i'r Trysorydd a'r Ysgrifennydd am bob cymorth dros y flwyddyn a dymunwyd yn dda i'r Swyddogion a'r Pwyllgor am y tymor i ddod. Diolchodd Rhian Hughes i Mair am dymor llwyddiannus iawn ac anogodd pob un i ail-ymuno ym mis Medi a dod â ffrind hefyd.

APÊL EISTEDDFOD YR URDD ERYRI 2012. Mae dwy noson wedi eu trefnu gan

bwyllgor yr apêl sef noson o Dalwrn y Beirdd yn yr Hydref, ac hefyd noson o adloniant yng nghwmni grwpiau y pentref i'w gynnal ar nos Sadwrn, Ionawr 8fed, 2011 yn y Bedol.

Diolch i aelodau y pwyllgor fu'n gyfrifol am ddosbarthu a chasglu y ffurflenni cyfamodi o amgylch y pentref. Diolch hefyd i Mrs Elizabeth Evans am gychwyn yr apêl drwy werthu peth o'i thaffi blasus. Os oes unrhyw unigolyn neu gymdeithas yn dymuno trefnu gweithgaredd i godi arian mae croeso iddynt wneud hynny - dim ond cysylltu gyda un ai Siân Harris (Llywydd), Manon Griffiths (Ysgrifennydd) neu Gareth Jâms (Trysorydd).

DIOLCH. Carai Nancy, Eluned, John Elwyn a theulu'r diweddar Trefor Williams, Rhoslyn, 2 Stad y Rhos, ddatgan eu diolchgarwch cywiraf i deulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt o golli gŵr, tad, tad yng nghyfraith a thaid annwyl a charedig iawn.

Diolch am y llu cardiau, y galwadau ffôn a'r rhoddion a dderbyniwyd. Roeddynt yn gysur mawr i'r teulu. Diolch i staff caredig, nyrsys y gymuned, staff Ysbyty Eryri a staff Cartref Nyrsio Cerrig yr Afon am eu gofal arbennig o Trefor. Diolch i'r Parchedig Marcus Robinson am ei wasanaeth yn y capel a'r fynwent ac i'r Ymgymwrwr, Dylan Griffith, Tros y Waen, Penisarwaun, am ei drefniadau trylwyr.

WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL. Y cyfanswm a gasglwyd ym Methel yn ystod yr wythnos oedd £795.82. Dymuna'r Parch Marcus Wyn Robinson ddiolch i bawb am eu caredigrwydd a'u haelioni.

Caernarfon, cartref Caersaint



Ei chariad tuag at dref Caernarfon a ysbrydolodd yr awdur, Angharad Price, i ysgrifennu ei nofel newydd, *Caersaint*, a

gyhoeddir gan Wasg y Lolfa. Dair blynedd yn ôl roedd cael dychwelyd i Gaernarfon yn bleser i Angharad, ac felly dyma fynd ati i geisio dangos ei gwerthfawrogiad o'r dref drwy ysgrifennu nofel amdani dan yr enw Caersaint.

Mae'r gyfrol yn dilyn ymdrechion Jaman Jones i 'ganfod ei hun' wedi iddo etifeddu tŷ Arfonia Bugbird. Wedi bod i ffwrdd o Gaersaint ers sawl blwyddyn mae ei ddychweliad yn creu chwilfrydedd ymysg ei gymdogion. Cawn ddod i adnabod nifer o'r trigolion lleol, gan gynnwys Babs Inc, golygydd y papur lleol, rhai o yfwyr ffraeth y Mona a Tonwen Bold, gwraig Med Medra - y gŵr sydd am 'godi Caersaint yn ei hól' ac ennill etholiad i fod yn faer y dref. Ond mae nifer o drigolion yn gwrthwynebu. A fydd rhywun yn gallu ei rwystro?

Er mai Caernarfon yw cefnlen y nofel hon, mae'n stori berthnasol i unrhyw dref yn unrhyw ran o Gymru. Fel pob tref arall yng Nghymru, mae gan Gaersaint ei chymeriadau, ac mae ganddi hefyd ei phroblemau, ac o'r problemau hyn y mae llawer o'r stori yn deillio.

'Mi oedd yna rai pethau ro'n i eisiau eu tynnu mewn yn benodol yn y nofel, fel y tensiwn rhwng twristiaeth a threftadaeth, yn ogystal â hanes a chwedloniaeth y dref. Ond ro'n i hefyd eisiau cyfleu'r

bywiogrwydd sydd yma, meddai'r awdur.

A hithau wedi ennill y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Tyddewi yn 2002 a gwobr Llyfr y Flwyddyn yn 2003 gyda'i nofel ddiwethaf, *O, Tyn y Gorchudd*, mae Angharad bellach yn ddarlithydd Cymraeg ym Mhrifysgol Bangor. Mae llenyddiaeth, felly, yn rhan o'i bywyd dyddiol, ond gyda dau o blant ifanc, mae amser i ysgrifennu er ei phleser ei hun yn brin iawn i Angharad.

'Ma' ysgrifennu yn un o'r petha' pwysica' yn fy mywyd i faswn i'n ei ddweud; rhywbeth sy'n ymylu ar fod yn rheidrwydd. Mae hynny'n golygu defnyddio'r ychydig amser sbâr sy gen i, ond mae o werth yr aberth!'



Gwasanaethau Garddio Gorwel

01286 650761
07773 020424

Planu Llwyni
Planhigion a Llysiau
Tori Gwair a Gwrychoedd
Tocio Palu a Chwynu
Tacluso a Gofal Tymhorol
Gwella Safon Tir
Glanhau Llwybrau, Tywarchu
CWBL YSWIRIEDIG

Cofiwch ddefnyddio

SWYDDFA POST BETHEL

(01248) 670261

Cewch groeso cynnes gan **CLED A SUSAN**

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli



MANTELL GWYNEDD
Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

cysylltwch â Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol

ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfnyddig drwy Warant 3420271

Y BWTHYN TÊ pen y ceunant isaf

LLWYBR YR WYDDFA LLANBERIS



PEN Y CEUNANT ISAF-
BWTHYN A ADEILADWYD AR
WAELODION LLWYBR YR WYDDFA
(O LLANBERIS)
YN YSTOD Y 18ed. GANRIF
CEWCH GROESO ARBENNIG
YMA, YN OGYSTALA
GOLYGFYDD GWYCH DROS
LLYN PADARN A DYFFRYN PERIS

AR AGOR 9am.- 9pm. BOB DYDD DRWY'R FLWYDDYN

DIODYDD GYDA SCON NEU DEISEN (Dim prydiau o gwbl)

MAN PARCIO O FLAEN Y BWTHYN • YN ADDAS I'R ANABL

Oriel arbennig o luniau Syr Kyffin Williams
a llu o arlunwyr Cymreig eraill

(01286)872606

www.ceunant.co.uk
steven@ceunant.co.uk

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

CYNGOR CYMUNED Y WAUNFAWR

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor ar nos Fercher, 26 Mai, yng Nghanolfan Waunfawr. Yn y cyfarfod ar 7 Ebrill penderfynwyd ymestyn cymhorthdal o £100 i Glwb Merched Caeathro; £200 i Glwb Sul Eglwys Croes y Waun; £150 at Gronfa Cynnal a Chadw Mynwent Caeathro; £200 at Gymdeithas Cae Chwarae Caeathro; £50 yr un i'r Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod yr Urdd a £250 i Ysgol Waunfawr.

Bydd Cyngor Gwynedd yn parhau i ddigolledu'r Cyngor am gynnal a chadw llwybrau cyhoeddus rhifau 31, 44 a 45. Adroddwyd fod Cyngor Gwynedd wedi caniatáu mynedfa newydd i'r Efail, Caeathro, a chodi garej newydd rhwng Eryl Cottage a Rhandir Mwyn.

Cytunwyd i ofyn i Gyngor Gwynedd sicrhau fod yr amserlen bysys ar wefan y Cyngor, yr amserlen printiedig, gwybodaeth ar yr arosfanau bws ac amserlenni'r gweithredwyr i gyd yn dangos yr un amser am yr un daith bws.

CAPEL CAEATHRO. Bydd y cyfleon canlynol i gwrdd gyda'n gilydd ar y Sul ym mis Gorffennaf:

- 4: 11.00: Ysgol Sul
- 11: 10.00 Parch Trefor Jones
- 11.00: Ysgol Sul
- 18: Dim oedfa nag Ysgol Sul
- 22: 2.00 Gweinidog, y Parch Marcus Wyn Robinson.

RECORD Y BYD? Oherwydd anawsterau gyda'i iechyd, ni fydd yn bosibl i T. Elwyn Griffiths, 15 Erw Wen, fod yn bresennol yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Bydd yn chwith iawn iddo - dyma'r tro cyntaf iddo fethu mynd i'r brifwyl (am wythnos gyfan) ers 61 blwyddyn. Bernir bod hyn yn record eisteddfodol, yn enwedig am iddo fynd am wythnos gyfan. Eisteddfod Genedlaethol Penybont ar Ogwr

yn 1948 oedd y cychwyn - y flwyddyn y sefydlwyd Undeb Cymru a'r Byd, y mudiad y bu Elwyn yn Ysgrifennydd iddo am gyfnod hir.

TYNFA MISOL. Enillwyr Tynfa Misol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro am fis Mehefin oedd: £40: (108) Tŷ'r Ysgol; £25: (110) Cefn Gof; £15: (57) Bryn Gwna; £5: (47) Graig Lwyd.

Diolch i'r hap-chwaraewyr am eu cefnogaeth barhaol.

MIRI HAF. Gorffennaf 10fed, am 2.00 o'r gloch y pnawn yn y cae chwarae bach: castell gwynt, ceffylau bach, rasys, gwisg ffansi, penaltis a phêl-fasged, Syrcas Syrcas, Yna barbaciw ym Mryngwna am 6.30 yr hwyr.

MARWOLAETH. Bu farw Eluned Griffiths, 15 Tai Glangwna gynt, yn ddiweddar, mewn cartref nyrsio.

NEWID AELWYD. Mae Ceri Ann, Paul a'r plant, Anna a Tomos, wedi symud o Hen Gapel i 10 Erw Wen.

UN FUNUD FACH

BYTH ETO

'Ddigwyddith hyn byth eto.' Dyna farn y sylwebyddion ar ddiwedd gêm dennis rhwng John Isner a Nicolas Mahut yn rownd gyntaf Pencampwriaeth Wimbledon eleni. Roedd sgôr o 70 i 68 yn y set olaf yn gwbl syfrdanol, ac fe barodd y gêm 11 awr a 5 munud. Mor arbennig ac anarferol yr ornest nes i'r trefnwyr gyflwyno gwobrau arbennig i'r ddau chwaraewr. Dyna'r tro cyntaf mae'n debyg i rywun a golodd yn y rownd gyntaf fynd adref â gwobr yn ei law.

Y mae'n bosibl, wrth gwrs, na welir gêm debyg iddi eto. Ac eto, pwy a wŷr beth a ddigwydd ymhén blyneddod. Ym myd chwaraeon, mae yna bethau rhyfedd yn digwydd, ac mae pob 'record' yn cael ei thorri yn y diwedd. Mae'n debyg mai'r cwbl y gellir ei ddweud yw mai

dyma'r gêm hwyaf 'hyd yma', a bod y sgôr uchel yn unigryw 'ar hyn o bryd'. Ac eto, mae'n anodd iawn dychmygu gêm arall yn para mor hir â hon.

Y mae 'unigryw' a 'byth eto' yn ddau beth y gallwn eu dweud i sicrwydd am yr hyn a ddigwyddodd ar Galfaria. Fe barodd yr ornest honno oriau hefyd, ac fe olygodd ymdrech a phoen mawr. Roedd hi'n frwydr ffyrnig. Ar y naill law roedd drygioni a Satan yn gwneud eu gorau i gadw gafael ar y ddynoliaeth, a'i thynnu i ddistryw tragwyddol. Ar yr ochr arall roedd Iesu'n ymdrechu i ddryllio'r afael honno a dwyn ei bobl i'r bywyd tragwyddol.

Brwydr unig oedd hi. Gwatwarwyr, ac nid cefnogwyr, a gafodd ein pencampwr mawr ni. Ond wedi'r brwydro hir, roedd yna fuddugwr. A'r un a fu farw oedd hwnnw. Ond y rhyfeddod, wrth gwrs, oedd mai wrth farw yr enillodd y dydd. Roedd wedi cymryd euogrwydd byd ar ei gefn ei hun, ac wedi dwyn y gosb am yr euogrwydd hwnnw. Wrth farw yn lle pechaduriaid fel ni, gallai weiddi 'Gorffennwyd', gan wybod ei fod wedi ein rhyddhau o afael drygioni a Satan a'r condemniad oedd yn ein hwynebu.

Welwyd y fath beth cynt na wedyn. A gallwn ddweud i sicrwydd na ddigwyddith hyn byth eto. Roedd un waith yn ddigon i ddelio â phechod pob un a phob oes. Roedd un aberth yn ddigon i ryddhau pawb sy'n barod i ymddiried yn Iesu a'i waith. Ddaw ef na neb arall i ailadrodd y weithred achubol hon. Does dim angen hynny, gan fod yr aberth hon dros bobl pob gwlad a phob cenedlaeth. Na, ddigwyddith hyn byth eto.

JOHN PRITCHARD

Manion a Myfyrion Mai

I'r Athro Gwyn Thomas

(wedi darllen ei gyfrol newydd
Murmuron Tragwyddoldeb a Chwningod Tjocled)

Bod a darfod a hud arfaeth, y byd
a'i bwys, a mabolaeth,
hen olwyn ein bodolaeth
a'i thro 'rôl tro'n croesi'r traeth.

Ffrwydrad Olew ym Môr Mecsico

Ai pader selia'r pydew y ffynnon
fu'n ffyniant gwŷr boldew?
Bilidowcar mewn tar tew,
neu uwd o hylif dudew.

Huw Llanbêr

(pysgotwr a bonheddwyr - wedi taro arno yn Llyn Brenig...)

Campus o hud y pencampwr tawel
ond dewin o 'sgotwr,
yn ei gwch chwedol y gŵr
a gwron yw'r gwerinwr.

Hen bennill newydd - Amser

Pob gwanwyn, haf, hydref, gaeaf,
oes yn ôl, aent mor araf...
nawr am blwyddi bron â threulio
fel un ynt oll yn gwibio.

NORMAN CLOSS - FACHWEN

SNOWDONIA PARC WAUNFAWR

- Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
- Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
- Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go Iawn

Ffôn: (01286) 650218

Dylan Griffith

Trefnwyr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu'r Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

Hefyd



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaeddwch Mewn Steil Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Ffôn: 870740

YSGOL DOLBADARN

Wythnos cerdded i'r ysgol: Bu plant yr ysgol ar deithiau cerdded yn ystod wythnos cerdded i'r ysgol. Aeth y Babanod am daith o amgylch y pentref ac at Ysbyty'r Chwarel ac aeth yr Adran Iau i grwydro'r llwybrau o amgylch yr ysgol. Dyma gyfle gwych i werthfawrogi harddwch ein hardal. Cafodd rhai o'r Adran Iau gyfle hefyd i ganwio ar y llyn fel rhan o wythnos gweithgareddau awyr agored. Diolch i'r rhai fu'n cynorthwyo gyda'r canwio. Cafwyd diwrnod bendigedig hefyd yn Ynys Llanddwyn ar daith gerdded. Roedd pawb wedi blino erbyn cyrraedd Llanber!l

Gŵyl Griced:

Gwasnaeth Ephatha: Cawsom wasanaeth arbennig ar Fehefin 14eg gan y cwmni hwn a gyflwynodd negeseuon Cristnogol pwysig inni. Roedd ganddynt bypedau i'w helpu ac roedd llawer o sŵn chwerthin a chanu i'w glywed yn dod o'r neuadd.

Diolch hefyd i Andrew Setatree hefyd sydd wedi dod atom i gynnal gwasanaethau yn ystod y flwyddyn.

Ymweld â'r llyfrgell: Cafodd blwyddyn 2 a 3 gyfle i ymweld â llyfrgell Llanberis a mwynhau gwrandio ar straeon, dod i ddysgu ble mae llyfrau yn cael eu cadw a sylweddoli gymaint mae'r llyfrgell yn gynnig. Diolch i Nia Gruffydd am ei gwaith.

Symud dosbarthiadau: Cafodd blwyddyn 6 gyfle i ymweld â Ysgol Brynrefail ac felly roedd yn gyfle i blant bach newydd y Meithrin ddod draw i'n gweld am y bore ac roedd yn gyfle i bawb arall yn symud i'w dosbarth newydd i gael blas ar y gwaith cyn mis Medi.

Pen-blwydd Eglwys Padarn: Mae'r Eglwys yn dathlu ei phen-blwydd yn 125 mlwydd oed eleni ac mae'r ysgol yn cynnal gwasanaeth yno nos Fawrth Mehefin 22ain i ddathlu'r achlysur.

Dymuniadau gorau: Mae cyfnod Miss Stephanie Welsby yn yr ysgol wedi dod i ben gan iddi gwblhau ei chwrs NVQ Lefel 3. Diolch iddi am ei gwaith caled a phob dymuniad da at y dyfodol. *Dirwedd tymor:* Mae hi am fod yn brysur o hyn tan ddiwedd y tymor! Dyma rai pethau i edrych ymlaen atynt: Mabolgampau, Ffair Haf, Gala Nofio'r ysgol a thripiâu wrth gwrs!

DIOLCHIADAU.

YMDDEOLIAD. Dymuna Ann Jones, Stryd Newton, ddiolch o galon i bawb am yr holl gardiau a galwadau ffôn a dderbyniodd ar achlysur ei hymddeoliad yn ddiweddar.

PEN-BLWYDD. Dymuna Dilys Baylis ddiolch o galon i bawb am y llu cardiaid, blodau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 98 ar Fehefin y 18fed. Diolch hefyd i Plas Pengwaith am y gacen fendigedig a'r te pen-blwydd a'i wneud yn ddiwrnod i'w fwynhau gan bawb.

DYMUNA Eurwen a'r teulu, 4 Dôl Elidir, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag at y teulu yn eu profedigaeth o golli eu mam. Diolch yn arbennig i Feddygon a Nyrsys Waunfawr/ Llanrug; Cartref Preswyl Foelas, Llanrug; y Parchedigion John Pritchard a Gwenda Richards; Bethan Holding, yr Organyddes, a Gwynfor Jones o E W Pritchard, Llanberis.

CÔR DYFFRYN PERIS. Mae wedi bod yn amser prysur iawn i'r Côr ar ôl iddynt ddychwelyd o'u hymweliad â Malaga yn

Sbaen. Cynhaliwyd cyngherddau ganddynt yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis; yng Nghapel St John, Llandudno; yn yr Eglwys yn Betws y Coed ac, ar nos Sul, Mehefin yr 20fed, roeddynt yn un o dri chôr a gymerodd ran yn

y Gymanfa Ganu a gynhaliwyd yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis, i ddathlu 125 o flynyddoedd ers yr agorwyd yr Eglwys. Mae'r Côr yn dymuno gwellhad buan i'r aelodau na fedrodd fod yn y dathliadau uchod oherwydd gwaeledd

Tri Chwmni a Thair Stori Fusnes

Byw Busnes - Gari Wyn: £7.50
Busnes ar y Buarth - Gareth a Falmai Roberts: £4.75
Y Gwalch, yr Inc a'r Bocsys - Myrddin ap Dafydd: £4.75

Gwlad y gân, rygbi a chynghanedd - anaml iawn y mae Cymru'n cael ei gweld fel gwlad ac iddi gymuned fusnes llwyddiannus. Ac eto, ar hyd ac ar led y wlad mae unigolion yn mentro ac yn creu bywoliaeth i'w hunain trwy redeg cwmnïau preifat. Mae Syniad Da, cyfres newydd o lyfrau gan Wasg Carreg Gwalch, yn adrodd storiâu busnesau llwyddiannus yng nghefn gwlad Cymru yn y gobaith o gynnig ysbrydoliaeth i entrepreneuriaid y dyfodol.

Mae'r tair cyfrol gyntaf yn y gyfres fforddiadwy hon yn edrych ar dri chwmni lled wahanol i'w gilydd. Mae'r gyntaf, *Byw Busnes*, gan Gari Wyn, yn sôn am gwmni gwerthu ceir ail-law y perchennog, sef Ceir Cymru; yr ail, *Busnes ar y Buarth*, yn adrodd hanes Gareth a Falmai Roberts a Llaeth y Llan, a'r drydedd, *Y Gwalch, yr Inc a'r Bocsys*, yn sôn am hanes Myrddin ap Dafydd a sefydlu Gwasg Carreg Gwalch.

Meddai Myrddin ap Dafydd, 'Mae yna ddigon o lyfrau busnes yn y Saesneg, o lawlyfrau am sut i wneud arian yn sydyn i hunan o fïanau'r biliwnyddion. Teimlo wnes i fod 'na le i gwmnïau Cymreig ddweud eu hanes a rhoi ychydig o eiriau o gyngor i rai sy'n astudio'r pwnc neu'n ystyried mentro.'

Yn y llyfrau ar Wasg Carreg Gwalch a Llaeth y Llan, mae'r cynnydd yma yn dod ar ffurf hanes y cwmni ac ambell air doeth am sut y cafodd problem ei datrys neu sut y goresgynnwyd cyfnod anodd. Mae llyfr Gari Wyn yn fwy o lawlyfr, sy'n cynnig ei sylwadau ar fusnes a bywyd, gyrfa a gwaith. Ceir sylwadau ar bob agwedd o redeg busnes, o'r cwestiynau y dylid eu gofyn wrth feddwl am ddechrau busnes eich hun i sgwennu cynllun busnes, cyflogi pobl, delio gyda chwsmeriaid a hyd yn oed talu trethi.

Meddai Gari Wyn, 'Cyn dechrau ysgrifennu'r llyfr hwn, treuliais gryn dipyn o amser yn ymchwilio a chwilota drwy bob math o ffynonellau. Roedd y mwyafrif ohonynt yn ddifyr ond o'u cymharu â fy amcanion personol, nid oeddwn bob amser yn gallu uniaethu â rhannau o'r cynnwys. Nid oedd y llyfrau hyn yn cynnwys canllawiau a fyddai bob amser yn berthnasol i unigolion sy'n byw yng Nghymru ac mewn ardaloedd llai dwys eu poblogaeth. Drwy adrodd fy stori - y camgymeriadau yn ogystal â'r llwyddiannau, y gobaith yw 'mod i'n medru cynnig safbwynt Cymro Cymraeg.'



Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



H.E. HUGHES
A'I FEIBION
Bwthyn Gadlys
LLANBERIS
Ffôn: 870444



★ Gwerthwr Glo
★ Olew Gwres Canolog
i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

YSGOL GYMUNED

Twrnamaint Tennis. Bu rhai o blant Bl. 5 a 6 yn cymryd rhan yn y Twrnamaint yn y Ganolfan Tennis dydd Mawrth, 8 Mehefin. Roedd pawb wedi cael hwyl yn chwarae yn erbyn timau eraill o wahanol ysgolion.

Cystadleuaeth Criced. Dydd Iau, 10 Mehefin, aeth rhai o ddisgyblion CA2 i gymryd rhan yn y gystadleuaeth gydag ysgolion eraill y cylch.

Diolch i Mr Gareth Williams am baratoi'r plant ar gyfer y gemau yma.

Symud Dosbarthiadau. Roedd dydd Llun, 14 Mehefin, yn diwrnod prysur iawn yn yr ysgol. Gan fod plant Bl.6 wedi mynd i Ysgol Brynrefail am y diwrnod roedd cyfle i bawb symud i fyny i'r dosbarth y byddant ynddo ym mis Medi. Yn ogystal gwahoddwyd y plant a fydd yn mynychu'r ysgol am y tro cyntaf yn y dosbarth meithrin yma am y bore. Roedd pawb wedi mwynhau'r profiadau yn fawr.

Tripiau diwedd tymor. Roedd plant Bl.0 i 6 wedi mwynhau treulio'r diwrnod yn Gelli Gyffwrdd dydd Mercher, 30 Mehefin. Cafodd plant y dosbarth Meithrin amser hwyliog yn y Parc Coed y Sipsiwn, dydd Iau, 1 Gorffennaf.

Cymanfa Ganu yn Eglwys Santes Helen. Cynhelir Cymanfa Ganu i agor gweithgareddau wythnos y Carnifal yn yr Eglwys nos Sul, 4 Gorffennaf am 6.00 o'r gloch. Bydd Côr plant yr ysgol yn cymryd rhan.

Mabolgampau. Cynhelir y Mabolgampau dydd Mawrth, 6 Gorffennaf am 1.00 o'r gloch os bydd y tywydd yn caniatáu. Mae croeso i chwi ddod draw i gefnogi'r plant.

Gwyliau Haf. Bydd yr ysgol yn cau ddydd Gwener, 16 Gorffennaf, ac yn ailagor i'r plant dydd Iau, 2 Medi.

Llongyfarchiadau mawr i Mrs Sharon Ray am gael ei dewis fel yr Athrawes newydd gymhwyso orau drwy Gymru. Rydym fel ysgol yn hynod falch o'i llwyddiant ac yn dymuno'r gorau iddi yn y dyfodol.

Dymunwn y gorau i Mr Gareth Williams yn ei swydd newydd yn Ysgol Betws y Rhos yn mis Medi gan ddiolch iddo am ei ymroddiad fel athro llanw yma dros gyfnod.

YSGOL SUL BOSRA. Bu mis Mai a Mehefin yn fyrlymus tu hwnt gyda dwy Gymanfa yn y Neuadd Gymuned. Llongyfarchiadau i'r tair Ysgol Sul a gymerodd ran yng nghymanfa'r Annibynwyr ar 23 Mai. Cafwyd canu bywiog o dan arweinyddiaeth Gareth Jones, Llanberis, gyda Valmai a Bethan a band o fro Porthmadog yn chwyddo'r canu gyda'u cyfeilio soniarus. Gwnaethpwyd casgliad tuag at y Gymanfa a Chymorth Cristnogol. Dymunir diolch i bawb a gefnogodd y Gymanfa er gwaethaf y bwrlwm ar dir y Faenol.

Bnawn Sul, 20 Mehefin, cafwyd Miri Mehefin yng nghwmni Ysgol Sul Seiloh Tregarth a chyfeillion Eglwys Ebeneser Caernarfon a Pîsgah, Rhiwlas. Gwobrwywyd y plant am gasglu at y Gymdeithas Dramor a chofwyd yn dyner am Elfed Hughes, Caernarfon, un a fu'n ymhyfrydu yng ngwobrwy y plant ers blynnyddoedd. Yn sicr, roedd bwlch ar ei ôl eleni.

Fe fwynhaodd y plant ganu a chwarae offerynnau gyda John Eifion a buan iawn y dysgodd neuadd lawn yr emynau newydd

bywiog. Diolch o galon i John Eifion a Wyn am yr arweinyddiaeth a'r cyfeilio. Diolch hefyd i Gwenda Davies am y trefniadau trylwyr.

I gloi y Gymanfa cafwyd te parti i bawb. Fe fwynhaodd y plant eu parti allan yn yr haul a'r oedolion yn yr Ystafell Gymuned. Dymunir diolch i rieni aelodau Ysgol Sul Bosra am baratoi yr arlwy. Diolch o galon hefyd i Anti Jean am sicrhau lolipop rhew i bob plentyn. Talwyd y diolchiadau gan y Parch Gwynfor Williams. Bydd yr Ysgol Sul yn gorffen ar 11 Gorffennaf, ac yn ailgychwyn ar 5 Medi. Croeso cynnes i aelodau newydd.

CARNIFAL Y PENTREF

4 - 9 Gorffennaf.

- Cychwynnir y gweithgareddau gyda Chymanfa Ganu nos Sul, 4, am 6.00 o'r gloch.
- Cynhelir Bingo, nos Lun, yn Neuadd yr Eglwys am 6.30
- Gyrfa Chwist, nos Fawrth am 7.30
- Nos Fercher, darperir chwaraeon ar gaeau'r ysgol Gymuned am 6.00, ynghyd â Dawnsio Llinell yn Neuadd yr Eglwys am 7.30.
- Cynhelir Disgo nos Iau yn Neuadd yr Eglwys am 6.30
- Helfa Drysor nos Wener i gychwyn am 6.45.
- Bydd y Carnifal yn cychwyn o'r Cartref Nyrsio am 1.30 ddydd Sadwrn.

Croeso cynnes i bawb.

CRONFA PENSIYNWYR

Pêl Bonws Loteri. Enillydd mis Mai oedd Mrs Carol Jones, Ysgol Gymuned, gyda rhif 41. Llongyfarchiadau!

CROESO i Mr a Mrs John Meredydd Jones, sydd newydd symud i fyw i 25 Bryn Tirion.

LLONGYFARCHIADAU i David a Cheryl Ash, 1 Tai Bwthyn, ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

GWELLHAD BUAN i Mr John Jones, 8 Bryn Tirion, sydd

wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty. Ein cofion annwyl hefyd at nifer ohonoch sydd wedi derbyn triniaethau ac heb fod yn dda yn ddiweddar.

PWYLLGOR NEUADD.

Tynnwyd Clwb Cant Mehefin a Gorffennaf. Yr enillwyr y tro hwn oedd:

Mehefin: Iwan Parry, Tawelfa; Osian Dafydd, Sycharth.

Gorffennaf: Manon Glyn, Tawelfa; Dafydd a Helen Owen, Bryn Hyfryd.

EISTEDDFOD

GENEDLAETHOL YR

URDD

Llongyfarchiadau i Lois Eifion ac Anest Bryn ar eu

llwyddiannau yn yr Eisteddfod

PWYLLGOR APÊL

EISTEDDFOD YR URDD

ERYRI 2012.

Y mae'r llythyrau nawdd eisoes wedi'u dosbarthu i bob tŷ ym Mhenisrwaun a Brynrefail a hyd yma y mae'r ymateb yn galonogol tu hwnt. Targed y ddau bentref yw £5,000 ac felly bydd cyfraniad o unrhyw swm yn dderbyniol iawn. Gellir rhoi eich cyfraniad i'r Trysorydd, Elizabeth Jones, 17 Bryn Tirion (Ffôn: 01286 872421) neu'r Is-Drysorydd, Carys Williams, Meini Gleision, Brynrefail (01286 871754) neu unrhyw un o'r swyddogion neu aelod o'r pwyllgor a enwir ar y ffurflen. Bydd yr aelod o'r pwyllgor yn fwy na bodlon i alw heibio os dymunwch. Diolch o galon am eich cydweithrediad arferol.

PROFEDIGAETH.

Ein cydymdeimlad llwyraf â Mr a Mrs George Herd, Cartref, ac Owain a Twm o golli mam i George, mam yng nghyfraith i Gwenllian a nain annwyl i'r hogiau. Dymunir diolch i bawb am y cardiau a'r geiriau caredig. **RHIFYN NESAF.** Daw'r rhifyn nesaf o'r Eco allan ddiwedd Awst/dechrau Medi. Felly cadwch eich newyddion yn saff a'u danfon i Sycharth erbyn y dyddiad a nodir. Gwyliau hapus i chwi oll.

Mae'n rhaid i mi siarad
hefo rhywun



Y SAMARIAID
(01248) 674985

**Blodau
Racca**

(ALWYN A SARAH JONES)

Ffôn: 870605

- Basgedi Planhigion
- Planhigion Gardd
- Basgedi Crog
- Hefyd, Compost ar werth

RHODD O'R GALON
YW BLODAU

AUDI	SEAT	PORSCHE	VOLKSWAGEN
DIESEL	PETROL	CHWISTRELLIAD	ARBENIGWYR

***Cymhwyter*
BOSCH**
i roi gwasanaeth i'ch car
heb effeithio ar
y warant*
Dewis arall dibynadwy
yn lle'r Prif Ddeliwr
* Gyda rhai amodau

Trwsio cerbydau a gwerthu partiau sbâr
Lle da y gellwch ei fforddio

Stâd Cibyn, Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD
(01286) 673559 www.a-v-w.co.uk

FIAT	PEUGEOT	BMW	SKODA
ABS	BRÉCS	CLUTCHES	TYRBO
AIR CON	GWASANAETH	BATRIS	
VOLVO	MERCEDES	SAAB	

MEWNFORIO YR ALMAEN
UNIONI OLWYNION CAM BELTS TRYDANOL
SWEDEN

LLANRUG

Eryl Roberts. 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

YSGOL GYNRADD. Bu rhai o'r plant yn llwyddiannus ym Mabolgampau Cylch yr Urdd a mynd ymlaen i'r gystadleuaeth sirol:

Rhiannon Thomas, Blwyddyn 6 - cyntaf ar daflu pêl a'r waywffon. Kieran Forrest, Blwyddyn 4 - cyntaf ar redeg a'r naid hir. Llinos Haf Jones, Blwyddyn 6 - cyntaf am redeg. Teleri Jones, Blwyddyn 4 - cyntaf am redeg.

Llongyfarchiadau iddynt a phob lwc yn y gystadleuaeth sirol.

Llongyfarchiadau mawr i Tomi Brown, Blwyddyn 1, a ddaeth yn ail ar y gystadleuaeth canu unawd yn Eisteddfod yr Urdd Llanerchaeron.

Llongyfarchiadau calonnog hefyd i Math Roberts, Blwyddyn 6, a ddaeth yn ail ar yr unawd telyn yn Eisteddfod yr Urdd Llanerchaeron.

Rydw i'n siŵr fod dyfodol disglair i'r ddau ar lwyfannau'r dyfodol.

Bu Blwyddyn 3 a 4 ar eu trip i wersyll yr Urdd Glanllyn lle cawsant fwyniant mawr ar ddiwrnod braf.

Bu Blwyddyn 5 a 6 yn dilyn afon Llifon yng nghwmni Mr Dewi Thomas. Cawsant hwyl fawr yn dilyn trywydd yr afon gan ryfeddu at fyd natur o'u cwmpas. **SEFYDLIAD COFFA.** Enillwyr Clwb Cant mis Mai oedd: 1. Mrs M. Davies, Bod Awel; 2. Mrs S. Williams. Glyn Afon; 3. Mr Wavell Roberts, Bontnewydd.

PLAID CYMRU. Enillwyr y Clwb Cant oedd: 1. Phillys Elis, Penisarwaun; 2. Rolant Wynne, Llanrug.

DIOLCHIADAU. Dymuna Sharon Owen, 56 Bro Rhyddallt, ddiolch o galon i Kevin, Elin a Mared am drefnu parti arbennig iddi pan yn 40 oed yn ddiweddar. Diolch yn fawr hefyd i bawb am yr anrhegion, cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniodd.

DYMUNIADAU DA AM

WELLHAD BUAN. Da yw deall fod Mair Hughes, Glascoed, yn gwella a Mrs Cari Hughes, 7 Hafan Elan, sydd yn dal yn Ysbyty Eryri, ond yn gwella hefyd. Cofion gorau atoch ac at bawb sydd ddim yn dda.

PROFEDIGAETHAU. Bu farw Mrs Mair Jones, Glan Moelyn ar drothwy ei phen-blwydd yn 90 oed. Gwraig hynod o ymdrechgar, i'w gweld ar y ffordd i'r siop bob dydd ac yn mynychu pob achlysur yn y pentref. Bydd colled enfawr i'r teulu, Trefor, Gwyneth, Edwin a John a'u teuluoedd, ei chwiorydd, wyrion a wyresau a ffrindiau oll. Anfonwn ein cydymdeimlad diffuant atoch i gyd.

Cofiwn yn ddiffuant iawn hefyd at y Parch Gwilym Parry, 7 Gwêl Fynydd, yn ei brofedigaeth o golli ei wraig annwyl. Bydd colled iddo yntau, ynghyd â'i lys-blant a'u teuluoedd, yn enwedig Rhiannon Fear, Brwynog, o'r pentref yma.

Trist iawn yw cofnodi marwolaeth Eileen Jones, 60 Glanffynnon, yn 63 mlwydd oed ar ôl gwaeledd eithaf byr. Roedd yn fam arbennig i Derfel, Delyth a Siân, nain hynod i'w wyrion a wyresau a ffrind mawr i lawer un. Cydymdeimlwn yn arw â'r teulu i gyd, hefyd ei chwaer a dau frawd a'r teulu oll.

PEN-BLWYDD ARBENNIG. Pob dymuniad da i Edgar Jones, Swyddfa'r Post ar ei ben-blwydd yn 60 oed. Rhaid dweud, Rydych yn edrych yn dda iawn! Pen-blwydd Hapus.

DIOLCHIADAU. Dymuna Mrs Katie Davies, 5 Hafan Elan, ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am yr holl ofal, cymwynasau, cardiau a dymuniadau da a dderbyniodd yn Ysbyty Gwynedd, Ysbyty Eryri ac ar ôl dod adref. Diolch yn fawr iawn.

Dymuna Edgar Jones, Swyddfa'r Post, ddiolch yn arw i

gymaint o bobl a fu mor garedig ar achlysur ei ben-blwydd yn 60 oed. Mae yn gwerthfawrogi y cwbl.

LLONGYFARCHIADAU mawr i Ceri Williams, Glan Gors, Ffordd Glanffynnon, ar ddod yn Ddoctor. Pob dymuniad da i ti a mwynha dy drafaelio y flwyddyn yma cyn cychwyn ar dy yrfa, oddi wrth Taid a Nain, Fferm Minffordd.

RHODDION £25 gan Yvonne Gwyrfa, Codsall, Stafford er cof am ei rhieni, Thomas David a Barbara. gynt o Ddeiniolen. Hefyd ei hunig frawd, Dennis a'i wraig, Nellie, ei chwiorydd a brodyr yng nghyfraith, Ceinwen a Bill; Betty a Bert; Lorraine a Bobby a William Griffiths, gŵr Rhianwen. £20: Edgar a Pat Jones, Swyddfa'r Post, Llanrug; Er cof cariadus am Gwyn, mab a brawd annwyl - Eifion, Euronwy, Meilir a Delyth, Trem Eilian, Brynrefail.

£10: Mrs Megan Morris, Minffordd, Dinorwig; Eurwen, 4 Dôl Elidir, Llanberis; Dilys Baylis, Llanberis.

£5: Mrs Katie Davies, 5 Hafan Elan, Llanrug; Dienw Tanycoed; Carys Williams, Meini Gleision, Brynrefail.

£3: Gwion Jones, Marian Terrace, Deiniolen; Ann Jones, Stryd Newton, Llanberis.

MERCHED Y WAWR Nos Fawrth, 9 Mehefin, aeth llond bws o'r aelodau i Foelfre. Yno yn ein cyfarfod yr oedd y Parch Huw John Huws. Cafwyd sgwrs ddifyr ganddo am gefndir Bad Achub Moelfre ac am suddiad y Royal Charter. Aethpwyd â ni at y gofologofn a difyr tu hwnt oedd clywed Huw

John yn adrodd ei hanes yn cynnal gwasanaeth i ddadorchuddio'r gofeb yng nghwmni neb llai na'r Tywysog Siarl - a hynny yn y Gymraeg. Yna bu'n olrhain hanes bywyd Dic Evans, yn ymyl cerflun godidog ohono.

Diolchwyd i'r Parch Huw John Huws am sgwrs hynod ddifyr ac addysgiadol gan y Llywydd, Margaret Parry. I orffen y noson fe fwynhaodd pawb y bwffe bendigedig yn 'Pantri Ann'. Diolchwyd hefyd i Margaret Christian am y trefniadau trylwyr.

Llongyfarchwyd Megan Roberts ar ei Llyfr Lloffion graenus a diddorol a ddaeth i'r brig yng nghystadleuaeth Llyfr Lloffion y Rhanbarth.

Casglwyd £1,800 tuag at yr elusen R.E.M.A.P. a diolchir i'r rhai fu'n ddewr i gadw'n ddistaw fel gweithgaredd nodedig.

Anfonwyd cofion at Mair a Julie a oedd yn methu dod oherwydd salwch. Diolchwyd i Margaret Parry am ei gwaith trylwyr fel Llywydd y Flwyddyn ac edmygwyd y modd y cofiai yr holl gyhoeddiadau a'r modd di-hafal y cyfarchai ein holl westeion. Diolch, Margaret.

Gyda thristwch mawr a cholled enfawr y cofiwn am aelod annwyl o'r gangen a fu farw'n dawel yng nghwmni ei theulu yn Ysbyty Gwynedd ar 8 Mehefin. Un o Ddyffryn Ogwen oedd Eileen ac wedi byw yn Llanrug ers blyneddau. Anfonir ein cydymdeimlad llwyrat at Derfyl, Delyth a Siân a'r teulu oll.

Bydd y gangen yn ailgychwyn nos Fawrth, 14 Medi am 7.30. Croeso cynnes i bawb.

Mae pobl dros 50 oed yn ymddiried yng nghynhyrchion a gwasanaethau Age Concern

Yswiriant Cartref

Yswiriant Cerbydau a Diffyg ar y Modur

Yswiriant Teithio

Cynllunio Angladd

Cyflenwadau Trydan a Nwy

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â ni yn:

Age Concern Gwynedd a Môn
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen
Caernarfon, Gwynedd LL55 2YD

01286 678310

gan ddyfynnu'r cyfeirnod: Eco'r Wyddfa

Os byddwch yn cysylltu â swyddfa Age Concern, byddwch yn ymwneud a chynhyrchion a gwasanaethau Age Concern Enterprises Limited (AGEnt). Mae AGEnt wedi ei awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA) ar gyfer cyfrifiadur yswiriant. Mae'r Age Concern uchod yn elusen gofrestrig.

Pryd i Bawb

Arlwyo at bob achlysur yn unrhyw leoliad Bwffe blasus o safon



- Priodas •
- Cyfarfodydd busnes
- Bedydd/Parti/Te angladd
- Basged Picnic
- Bwyd yn unig neu gwasanaeth llawn

Cerid Mackinnon
Ffôn: 01286 673190
Symudol: 07774 925502

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol

2 Stryd y Plas, Caernarfon
(01286) 672727

8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn,
Parc Menai, Bangor
(01248) 674460

Dewch atom am gyngor ynghylch yswiriant a materion ariannol



Awdurdodir a rheolir gan yr
Awdurdod Gwasanaethau Ariannol



Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch â **Gomer Roberts**
Ffôn: 01286 870462
Symudol: 07962 712368

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

PROFEDIGAETH. Daeth y newydd trist i'r pentref fore Sul, Mai 30ain, am ymadawiad Gwyn Lloyd Roberts, gynt o 8 Trem Eilian, yn 49 mlwydd oed. Bu farw yn drychinebus mewn tân yn ei gartref yng Nghaernarfon. Bu'r angladd yn Amlogfa Bangor ddydd Llun, Mehefin 7fed, gyda'r Parch Marcus Robinson yn gwasanaethu. Talwyd teyrnged i Gwyn, a oedd yn gymeriad poblogaidd a hoffus gan ei deulu a'i ffrindiau, gan Sharon, ei gyfnither. Mae ein cydymdeimlad yn ddwys iawn â'i rieni, Eifion ac Euronwy, ei frawd a'i chwaer, Meilir a Delyth, a'i fab Alan yn eu profedigaeth.

DIOLCH. Dymuna Eifion, Euronwy, Meilir a Delyth ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd a'u cydymdeimlad yn eu profedigaeth o golli Gwyn, mab a brawd annwyl iawn.

PEN-BLWYDD ARBENNIG. Llongyfarchiadau i Sioned Alaw, Meini Gleision sydd wedi dathlu ei phen-blwydd yn 21ain yn diweddar. Mae Sioned newydd orffen cwrs B.Sc. mewn Mathemateg ym Mhrifysgol Aberystwyth a dymunir yn dda iddi yn ei swydd newydd fel Cyfrifydd dan hyfforddiant gyda Cwmni A. Hughes Jones Dyson, Cyfrifyddion yng Nghaernarfon.

Pob dymuniad da i'r dyfodol gan Mam, Dad, Bethan, Catrin a'r teulu.

YR EGLWYS

BRESBYTERAIDD

Y Gymdeithas. Cynhaliwyd cyfarfod o Gymdeithas y Capel nos Iau, Mai 27ain. Cadeirydd y noson oedd Jennie Angharad Roberts, 2 Ffrwd Madog, ac wedi myfyrdod perthnasol i destun y siaradwr gwadd, estynnodd groeso cynnes i'r Parch W. R. Williams, Y

Felinheli. Cafwyd orig hwyliog yn ei gwmni gyda'i sgwrs dan y testun 'Esgidiau' - pob math o esgid a'i rhannau yn cynrychioli amrywiaeth eang o storïau, eu hiwmor a'u dywediadau bachog. Gwerthfawrogwyd y noson ddifyr yn fawr iawn.

Nos Iau, Mehefin 24ain, cadeiriwyd y cyfarfod o'r Gymdeithas gan Verna Jones, Meillionen. Cafwyd myfyrdod addas ganddi fel rhagarweiniad i thema'r noson - Eglwys Brynrefail Ddoe a Heddiw.

Fel mae'n wybyddus, mae yr oll o'r adeiladau gwreiddiol erbyn hyn ar eu newydd wedd, bron a'u cwblhau yn dai annedd moethus. Dyfynnwyd emyn o eiddo y gweinidog cyntaf, Glan Alaw, i gloi'r myfyrdod. Y siaradwr gwadd oedd John Dilwyn Williams, Penygroes, ar y testun - 'Caernarfon Ddoe a Heddiw'.

Diolchwyd yn gynnes iddo gan nifer o'r aelodau am gyflwyniad arbennig iawn o'i gyfres eang o ddarluniau o olygfeydd gwrthgyferbyniol o orffennol a phresennol y dref.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fercher, Gorffennaf 14eg, gyda sgwrs gan un o'n haelodau Dafydd G. Ellis, Gweledfa, gyda Lowri Roberts Williams yn cadeirio'r noson.

Oedfa Gymun. Nos Sul, Mai 30ain, croesawyd y Parch S. O. Hughes, Hen Golwyn, i'n plith. Cafwyd oedfa fendithiol dan ei arweiniad pryd y gweinyddwyd y Sacrament o Swper yr Arglwydd.

Y Gymdeithasfa. Bu Gwyn Hefin Jones yn cynrychioli Henaduriaeth Arfon mewn cyfarfodydd o Gymdeithasfa'r Gogledd Eglwys Bresbyteraidd Cymru a gynhaliwyd yn China Street, Llanidloes, ar Fehefin 22ain a'r 23ain.

Oedfaon Gorffennaf am 5.30 yr hwy:

4: Mr Robert M. Morris, Penygroes

11: Parch R. E. Hughes, Nefyn
Gweinyddir y Cymun

18: Parch Eric Jones, Bangor

25: Parch Iorwerth Jones Owen, Caernarfon.

SEFYDLIAD Y MERCHED.

Nos Fercher, 16eg o Fehefin, mwynhaodd nifer o'r aelodau, ynghyd ag aelodau o gangen Waunfawr, noson hwyliog o Fowllo Deg ym Mharc Glasfryn. Cafwyd pryd o fwyd ardderchog i gloi'r noson.

Nos Iau, Mehefin 24ain, bu aelodau'r gangen ar ymweliad â chartref Russell Jones yn Rhosgadfan. Fel un o gyflwynwyr y rhaglen deledu "Byw yn yr Ardd", cafwyd noson hyfryd iawn yn ei gwmni yn arddangos ei ieir a chael aml

i gyngor a syniad am amrywiol blanhigion. Pleser hefyd oedd cyfarfod ei fab bychan, Bleddyn, a'r croeso cynnes a'r lluniaeth gan ei briod.

CYDYMDEIMLAD. Daeth profedigaeth i ran teulu Na Nog, Erw'r Nant, yn ddiweddar. Bu farw mam Eleanor - Nellie Maud Pritchard (gynt o 38 Maes Padarn, Llanberis) ar Fehefin 14eg yn 87 mlwydd oed.

Mae ein cydymdeimlad yn ddwys â'r teulu yn eu colled a'u hiraeth.

DIOLCH. Dymuna G. Hefin Jones, Trefnydd Plygu'r Eco yn y pentref, werthfawrogi ymroddiad y criw da ddaeth ynghyd i wneud y gwaith o blygu rhifyn Mehefin o'r Eco mor rhwydd. Diolch yn fawr iawn i bawb.

CÔR MEIBION DINAS BANGOR



Dafydd Morris o gwmni Brodyr Hogan yn cyflwyno ffeil i Gwyn Hefin Jones, Cadeirydd y Côr.

Ar nos Fawrth 18 Mai canodd y Côr o flaen cynulleidfawr fel arfer, yn eglwys Sant Ioan Llandudno. Bydd y Côr yn canu mewn o leiaf 4 cyngerdd yma bob blwyddyn a chael derbyniad gwych bob tro. Cafwyd unawd gan Bob Thomas gyda Gwilym Lewis yn cyfeilio a hefyd cafwyd unawd organ gan James Griffiths, Arweinydd y Côr. Cyfeilydd y Côr oedd Lowri

Roberts Williams.

Ar ôl y cyngerdd cafwyd cyfarfod byr pan drosglwyddodd Dafydd Morris o Gwmni Brodyr Hogan gyflenwad o ffeiliau i'r Côr. Mae rhain yn drawiadol iawn gyda arfbais y Côr yn amlwg iawn iddynt. Diolchir i'r Brodyr Hogan am noddi y Côr fel hyn - hogiau Bangor yn cefnogi Côr Bangor!

Sychlanhau • Altro
Ailwnio
Gwasanaeth
Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: **870088**


SWIGOD A SEBON

GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE, Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU



**GWYNANT
PIERCE**

Cynrychion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

CERIS JONES
Teglan, Stâd Talybont

LLANRUG
677362

neu symudol

07979
620996

- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol

Mwy o Ysgol Brynrefail

DIWRNOD SGILIAU BLWYDDYN 7

Cynhaliwyd y gweithgareddau hyn o bawn Mercher, Mai, y chweched ar hugain, hyd at amser cinio dydd Gwener, yr wythfed ar hugain, ar gyfer dau ddosbarth ym mlwyddyn 7 sef 7S a 7N.

Fel ysgol penderfynwyd mai un ffordd o ymateb i'r 'Fframwaith Sgiliau' fyddai cynnal diwrnodau sgiliau o'r math yma gyda gwahanol adrannau yn cydweithio i baratoi tasgau a'r pwyslais ar feithrin sgiliau'r disgyblion. Mrs Catrin Wyn Jones o'r adran Gymraeg, Mrs Sian Owen, Celf, a Mr Dylan Parri, Daearyddiaeth, fu'n paratoi'r gweithgareddau ar gyfer blwyddyn 7 o dan arweiniad Mrs Gwenno Bebb.

Daeth yr athrawon a'r ddau ddosbarth at ei gilydd i'r Llyfrgell bawn Mercher er mwyn cael cyflwyniad i'r gwaith oedd o'u blaenau a'r ffordd wahanol y byddent yn mynd ati i weithio. Thema'r gwaith oedd Llyn Padarn Trwy'r Canrifoedd ac eglurwyd y byddai'r disgyblion eu hunain yn cael penderfynu pa fath o waith roeddent am ei greu ar gyfer arddangosfa dan y pennawd hwnnw. Roedd hi'n wych gweld y disgyblion yn gweithio gyda'i gilydd i rannu syniadau ac yn gwneud penderfyniadau trostynt eu hunain ynglŷn â phwy fyddai'n gwneud beth yn eu grŵp hwy.

Y bore canlynol i ffwrdd â ni i Lanberis i gasglu gwybodaeth. Ar y ffordd cawsom gyfle i adael y bws ym Mhen Llyn er mwyn cerdded at Graig yr Undeb cyn dychwelyd at y bont i edrych ar yr olygfa o'r llyn a'r mynyddoedd o'r fan honno a darllen y ddwy gerdd sydd mewn efydd yno.

Wedi cyrraedd Llanberis cerddasom draw at y lle cyn islaw Ysbyty'r Chwarel, lle gwych i edrych draw at y pentref ei hun. Yno roeddem wedi trefnu cyfarfod Dafydd Whiteside Thomas er mwyn gwrandao arno yn sôn am chwedlau yn gysylltiedig â'r ardal. Gwrandawodd pawb yn astud ar ei hanesion am dylwyth teg a chewri o bob math. Pan gafodd y plant gyfle i ofyn cwestiynau gofynnodd Leich Anne, 'Sut ydach chi'n gwybod cymaint!' Roedd pawb wedi rhyfeddu at wybodaeth Mr Thomas ac wedi mwynhau clywed ei straeon.

Draw â ni wedyn i Gastell Dolbadarn i ystyried lleoliad yr adeilad a dysgu mwy am rai o'r tywysogion Cymreig a fu'n byw

yno. Bu'r plant yn brysur yn gwneud nodiadau yn ystod y bore, tynnu lluniau a sgetcho cyn i ni ddychwelyd i'r ysgol erbyn amser cinio.

Am weddill y diwrnod a thrwy'r bore canlynol bu'r disgyblion wrthi'n ddiwyd yn paratoi gwaith ar gyfer yr arddangosfa. Erbyn amser cinio dydd Gwener roedd cyflwyniadau photostory a phwynt pŵer wedi eu cwblhau, lluniau a mapiau wedi eu labelu, modelau o chwedlau'r tylwyth teg a Chastell Dolbadarn wedi eu peintio a straeon, disgrifiadau a cherddi wedi eu hysgrifennu.

Wedi cwblhau'r gwaith cafodd pawb gyfle i feddwl am y ffordd roeddent wedi gweithio a sut roeddent wedi dysgu. Wrth lenwi eu ffurflenni hunan arfarnu roedd hi'n amlwg bod y disgyblion wedi mwynhau'r cyfle i weithio ar brosiect o'r math yma oedd yn cyfuno gwahanol bynciau ac yn meithrin eu sgiliau. Bydd yr Wythnos Drawsgwricwlaidd sy'n digwydd rhwng y pumed a'r nawfed o Orffennaf yn gyfle i'r disgyblion adeiladu ar y gwaith yma.

DYLUNIO A THECHNOLEG

A gwaith y flwyddyn Ysgol yn prysuro at ei ddiwedd, a gofidio am arholiadau T.G.A.U. / A.S. ac A yn cynyddu yr ydym fel Ysgol, hefyd, yn ymfalchïo yng ngwaith y rhai hynny oedd angen gweithio'n ddygn ar eu prosiectau a oedd yn rhan hanfodol o'u cyrsiau.

Y ddau gafodd y graddau uchaf gyda'u prosiectau Dylunio a Thechnoleg eleni oedd Lydia Stronge a Gwion James.

ECO'R WYDDFA

RHIFYN MEDI
'Does dim angen
plygu!

.....
Dewch i gasglu'r
papur i Sefydliad
Coffa Llanrug

ARWYDDION NEWYDD AR DROED



Yn ystod yr wythnosau nesaf mi fydd trigolion Waunfawr yn dechrau sylwi ar arwyddion newydd yn britho ein llwybrau cyhoeddus. Arwyddion ydi'r rhain yn dangos cylchdeithiau o gwmpas y pentref - rhai yn hir a rhai yn fyr. Ni fydd yr arwyddion i gyd yn eu lle ar unwaith ond mi fyddant o liw arbennig i bob cylchdaith, a phob cylchdaith wedi ei henwi yn briodol. 'Yr Hen Waun', 'Hafod Olau' a 'Groeslon' fydd enwau'r tair cyntaf i'w gosod.

Ffrwyth gwaith diweddar Grŵp Rhwydwaith Cymunedol Gwyrfa'i ydi hyn, ar y cyd gyda Chyngor Gwynedd, Cyngor Cymuned Waunfawr a Chyngor

Cefn Gwlad Cymru. Cyngor Gwynedd sydd yn gwneud y gwaith o wella'r llwybrau, Cyngor Cefn Gwlad Cymru gynlluniodd yr arwyddion, a'r Cyngor Cymuned dalodd am eu cynhyrchu. Yn ystod y misoedd nesaf bydd Grŵp Rhwydwaith Gwyrfa'i yn cyhoeddi rhaglen o deithiau tywys a gweithgareddau eraill i godi ymwybyddiaeth o'r rhwydwaith gwych o lwybrau sydd gennym yn ein pentref ac i annog pobl i'w defnyddio.

Cefnogir y rhaglen weithgareddau gan fudiad Cadw Cymru'n Dacul. Gwylwch y posteri o gwmpas y pentref.

Y PORTHMON

DILYNWCH Y DAITH
Ymunwch â siwrne'r Porthmon

Mae'r cyflwynydd Ifan Jones Evans wedi derbyn her hanesyddol ar gyfer cyfres deledu newydd Y Porthmon ar S4C ar ddiwedd Mehefin. Bydd yn ceisio cwblhau siwrne' yn ôl traed un o borthmyn mwyaf adnabyddus Cymru'r 1930au.

Bydd Ifan a dau gi defaid yn ceisio gyrru praidd o ddefaid ar siwrne' 90 milltir o Fachynlleth i Aberhonddu gyda help cymunedau ar hyd y ffordd.

Bydd cyfres S4C, Y Porthmon, yn dilyn Ifan ar ei gwest yn ail-greu taith un o borthmyn adnabyddus olaf Cymru, Dafydd Isaac, gyda'i gŵn, Nan a Cab. Darlledir y rhaglenni bob nos am wythnos o nos Sul, 27 Mehefin.

Daw'r rhaglenni'n fyw o gymunedau lleol wrth iddynt fwynhau digwyddiadau traddodiadol gyda'r cyflwynwyr Shân Cothi a John Meredith. Ond a fydd Ifan a'i braidd yn cyrraedd y lleoliadau mewn pryd?

Ymhlith y digwyddiadau a gynhelir mewn gwahanol fannau ar hyd taith y porthmon bydd Treialon Cŵn Defaid, Ffair yn null y 1930au, Noson Lawen, Twmpath, Parti Cig Mochyn Rhost, a Thwrnamaint Gemau Traddodiadol. Cynhelir y digwyddiadau nosweithiol yn Llandre, Lledrod, Tregaron, Llanwrtyd ac Aberhonddu.

Bydd yr holl ddigwyddiadau yn rhad ac am ddim ac yn cael eu dangos yn fyw ar S4C. Am fwy o wybodaeth am y gyfres a'r digwyddiadau, ewch i s4c.co.uk/yporthmon

Teledir rhifyn arbennig o Dechrau Canu Dechrau Canmol o Fachynlleth, man cychwyn taith Y Porthmon, nos Sul 27 Mehefin.

Dilynwch ni ar droed, ar-lein, yn y digwyddiadau ac yn fyw ar S4C o 27 Mehefin ymlaen.

Cyfweliadau ar gael gyda'r cyflwynwyr ac arbenigwr hanesyddol: Meic Birtwhistle

O SLAMBAR SELWYN

Cwestiwn a ofynnir i mi yn aml ydi: 'Prun yw'r wlad harddaf y bu i mi ymweld â hi.' Mae'r ateb yn hawdd. Canada. Hynny yw, y rhan honno o Canada sy'n ymestyn o Calgary drwy'r Mynyddoedd Creigiog hyd at lannau'r Môr tawel yn Vancouver. Y rhan honno o Canada sy'n rhoi cyfle i chi aros ychydig yn Banff, Jasper a Kamloops, ac o bosib treulio noson neu ddwy yng ngwesty moethus Lake Louise. Rydw i wedi cael y fraint o wneud y daith hon ddwywaith. Y tro cyntaf yn niwedd Awst, a'r eildro yn niwedd Ebrill. O ddewis, diwedd Ebrill yw'r adeg gorau pan mae'r eira yn drwch ar y mynyddoedd a'r llynnoedd yn araf ildio o garchar y rhew. Yr anifeiliaid gwylltion yn deffro i alwad y gwanwyn cynnar a'r awyr iach yn llenwi eich ffroenau. Manteisiwch ar y cyfle i fynd ar daith mewn hofrennydd dros y rhan yma o Canada. Anghofiwch chi byth mo'r profiad.

Mi fydda i yn teimlo bod yr Alban - y rhan orllewinol, yn rhyw fath o 'fini Canada', a dyna pam y bydda i mor hoff o ymweld â'r rhan yma o'r Alban yn weddol aml. Gan fod 'daeth i ben deithio byd' wedi dod i fy rhan innau bellach, mae'n hwylusach a chryn dipyn yn rhatach i fynd i Oban nag i Calgary neu Vancouver. Roeddwn i fod i ddathlu fy mhen-blwydd yn Oban ychydig wythnosau yn ôl, ond oherwydd galwadau sydyn i sawl ysbyty bu'n rhaid gohirio.

Mi fydda i wrth fy modd yn treulio amser ar rai o ynysoedd unig yr Alban. Mae bywyd mor llonydd yno, a'r croeso mor gynnes - yn enwedig i Gymry. Bob tro y bydda i yn aros yn Oban mi fydda i'n siŵr o fynd drosodd i Ynys Mull, a chroesi i Ynys Iona. Mae yna rhyw dawelwch llesmeiriol i'w deimlo yno.

Oes, mae yna ramant mewn

ynys, boed hi'n fawr fel cyfandir Awstralia, neu yn ynys fechan fel Iona neu Enlli, er mae'n gywilydd gen i gyfaddef na fŵm i rioed ar dir Enlli. Daw geiriau y Prifardd T. Llew Jones i'r cof, 'Paid ag oedi'n hwy - rhag ofn.'

Y wlad harddaf? Canada. Y wlad fwy diddorol i mi ymweld â hi? Wel, ynys arall, sef Gwlad yr Iâ. Ynys sydd mor agos i ni ond eto mor bell. Ynys sydd wedi bod yn y newyddion yn ystod y misoedd diwetha 'ma oherwydd i'r llosgfynydd chwydu ei berfedd i'r entrychion. Dwi wedi galw yn y brifddinas, Reykjavik, ar fordeithiau sawl tro, ond fe dreuliais i bythefnos o wyliau yno rai blynyddoedd yn ôl.

'Pam fynd i le mor oer?' medda cyfaill wrtha i. Wel, i ddeud y gwir, dydi Gwlad yr Iâ ddim mor oer â hynny, diolch i'r 'Gulf Stream'. Mae cyfartaledd tymheredd yr haf o 11 i 15C, ac ym mis Ionawr (y mis oeraf) mae tymheredd y wlad yn uwch na tymheredd dinasoedd fel Efrog Newydd neu Vienna. Mae'r enwau a roddwyd ar y ddwy wlad, Gwlad yr Iâ a'r Ynys Las (Greenland) yn gamarweiniol hefyd. Does 'na fawr o wyrddni yn yr Ynys Las a dydi 'Iceland' ddim yn dalp o rew.

Mi fanteisiais i fynd ar wyliau yno yn ystod mis Mehefin oherwydd dyma'r amser gorau - golau dydd am bedair awr ar hugain. Poblogaeth yr ynys ydi tua 240,000 ac mae'n wlad hynod o ddiddorol o safbwynt blodau, planhigion ac adar. Ac, wrth gwrs, fel y gwyddom ni i gyd erbyn hyn, mae hi'n wlad o losgfynyddoedd, tua 200 ohonyn nhw. Fe geir chwydfa dân, ar gyfartaledd, bob pum mlynedd, ac fe gafwyd sawl un o dan y meysydd iâ, ac mae'r un sydd wedi achosi cymaint o drafferthion yn parhau i ferwi. Fyddai neb yn meddwl mynd i Sbaen ar wyliau hed ddillad

nofio - wel mae'r un peth yn wir am Wlad yr Iâ, ac mae'r dŵr y ffynhonnau ffrwydrol sydd heb fod ymhell o'r brifddinas yn sicr o fod yn gynhesach na dyfroedd glas traethau y Costa del Sol.

Aeth pymtheg mlynedd heibio ers i mi dreulio gwyliau ar yr ynys ddiddorol hon, ac rwy'n dal i gofio fod potel o gwrw yn costio pum punt yno bryd hynny. Do, mi yfais i alwyni o

ddŵr glân, pur Gwlad yr Iâ yn ystod y pythefnos cofiadwy hwnnw.

Nid yw Selwyn Griffith wedi bod yn dda yn ddiweddar a hoffem anfon ein cofion cynhesaf ato. Er hyn mae'n dal yn driw i'w bapur bro ac wedi anfon ei golofn yn ddi-fwlch ers cyn co! Diolch, Selwyn, a dymuniadau gorau i chi gyda gweddill y driniaeth.

Gol.




Hywel Williams

Aelod Seneddol
Etholaeth Caernarfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa yna ffoniwch 01286 672076 i wneud apwyntiad neu ysgrifennwch ato-

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell
Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
williamshw@parliament.uk



Alun Ffred Jones

Aelod Cynulliad
Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk

BYSUS RHIWLAS

Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partïon, tripiâu ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

ARVONIA

COACH TOURISM cpt

- Gwyliau Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Tripiâu Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.
- Adran teithiau grwp - yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatra digwyddiadau



Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286-675175 • Ffacs: 01286-671126

E-bost: info@arvonias.co.uk • Gwefan: www.arvonias.co.uk



Harddwch eich cartref gyda

FFENESTRI
CELTIC WINDOWS



FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG



(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLLEN

Cyfarfu Cyngor ar y 1af o Fehefin

Materion o'r cofnodion

Derbyniwyd llythyr o ddiolch oddi wrth Mr Gareth Fôn Jones, Prifathro Ysgol Penisa'rwaun am y cyfraniad at gostau teithio ddwywaith i Eisteddfod yr Urdd yn Llanerchaeron.

Derbyniwyd rhybudd Gwynedd i osod llinellau Gwahardd Aros mewn pum lleoliad yn Neiniolen.

Cadarnhad Adran Ffyrdd Gwynedd ei bod wedi anfon y gŵyn am ordyfiant a wal ddiffygiol ger arwydd 1-3 Preswylfa, Clwt y Bont, i'r Adran Tai i drefnu gwella'r sefyllfa.

Mainc Gors Bach - mae'r fainc yng ngweithdy Menter Fachwen i'w gosod yng nghae chwarae Bethel

Cofebion

Derbyniwyd y rhestr ganlynol o pwy sy'n gyfrifol amdanynt:

Penisa'rwaun

Capel Bosra - y Capel;

Yr Eglwys - yr Eglwys;

Yr ysgol - y llywodraethwyr;

Cofeb Huw Lloyd Edwards - Cyngor Cymuned;

Bethel

2 gofeb rhyfel yn yr ysgol;

Rhiwlas

cofeb rhyfel

Brynrefail

cofeb yn y Caban.

Penderfynwyd ystyried y rhestr gyfan ymhen mis a threfnu hysbysebu am contractiwr i'w glanhau ac ail lythrennu lle bo angen.

Llwybrau

Dim ond ar gyfer llwybrau Categori 1 a 2 y ceir ad-daliad torri gwair gan Wynedd o hyn ymlaen. Cyflwynodd y Clerc restr o'r llwybrau yn dangos pa rai sydd, yn ôl map Gwynedd, yn y categorïau yma. Penderfynwyd gofyn i Wynedd sut cafodd y llwybrau eu categoreiddio a hefyd am gopi

o'r map i bob aelod.

Dyweddod Huw P. Hughes bod angen ail-osod gatiâu ar lwybr 14 o Eglwys Llanddeiniolen a Len Jones bod angen draenio ac ail-wynebu llwybr 75A o Borth Gogledd, Deiniolen i fyny.

Ymateb holiadur Gwynedd

Danfodwyd yr holiaduron, yn cynnwys llawer o sylwadau ychwanegol, yn ôl i Wynedd gan aelodau unigol. Gwnaed sylw nad oedd digon o le ar y mapiau i roi'r rhifau gofynnol ac nid oedd enwau lleoedd arnynt er mwyn adnabod lleoliadau. Cyfeiriodd Len Jones at awdit a wnaed yn Ninorwig, ers peth amser, yn manylu ar anghenion y pentref. Dylai Gwynedd fod yn ymwybodol o lawer o'r atebion a ofynnwyd amdanynt.

Gohebiaethau a materion eraill

Derbyniwyd copi o *Cylchdaith Cerdded Llyn Padarn* oddi wrth Mr Gareth Roberts. Map a luniwyd gan 'Delweddau Gareth Roberts' ar ran Menter Fachwen a sylwyd yn arbennig bod enw Cyngor Cymuned Llanddeiniolen yn y diolchiadau gan bod y map wedi ei seilio ar ffurf *Troedio Llwybrau Llanddeiniolen*.

Beran. Cais am drwydded alcohol 24awr. Gwrthwynebwyd y cais yn unfrydol.

Sylwadau i'w danfon i Wynedd wrth wrthwynebu'r cais. Gofynnodd Phyllis Ellis pam fod angen trwydded am fwy o amser nag oriau tafarn.

Dyweddod Hefin Williams ac Elspeth Mitcheson bod plant yn cael diod oddi yno yn barod ac yn gadael pentyrrau o ganiau a.y.y.b o gwmpas Neuadd Rhiwlas. Awgrymodd Len Jones ofyn i'r Heddlu faint o drafferthion y maent yn eu cael yn Neiniolen ar hyn o bryd.

Ffyrdd - gwaharddiad trafniadaeth dros dro - dechreuir gwaith ffordd ar Lôn Cae Meta

ar y 12ed o Orffennaf.

Parcio ar balmentydd. Dywedodd Hefin Williams bod ceir yn parcio rhwng pentref Rhiwlas a'r ysgol ym amharu ar y llwybr diogel i'r ysgol, ychwanegodd Huw P. Hughes bod hyn yn gŵyn gyffredinol. Dywedodd Gwilym Williams bod ceir yn parcio ac yn creu anhawster rhwng y Post a

phentref Clwt y Bont - llythyr i'r Heddlu. Cyfeiriodd Elspeth Mitcheson at gwch sydd wedi ei adael, ers amser, yn Stryd Uchaf Rhiwlas - llythyr i Wynedd.

Cynllunio

Derbyniwyd pedwar cais yn ystod y Mis a chaniatawyd pedwar gan Wynedd.

Dyddiad y cyfarfod nesaf - 6ed o Orffennaf.

CYNGOR CYMUNED LLANRUG

Mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar y 18fed o Fai 2010 penderfynwyd:

- Symud ymlaen i wella Cae Chwarae Pwll Moelyn ar gost o £38,000 a gobeithir y bydd y gwaith wedi ei wneud mewn pryd erbyn erbyn gwyliau haf yr ysgolion.

- Gwahodd swyddog o Gyngor Gwynedd i drafod problemau ceir yn parcio mewn llefydd anaddas o fewn y pentref.

- Gwneud nifer o newidiadau i Reolau Sefydlog y Cyngor.

- Rhoi rhan o waith prosiect Trefi Taclus Cwmyglo i Bob a Iestyn Jones.

- Newid cloiau Cae Chwarae Nant y Glyn er mwyn sicrhau fod y gatiâu ar gau pan nad yw'r man parcio yn cael ei ddefnyddio.

- Gofyn i Glwb Llewod Llanrug sicrhau fod y roler a ddefnyddir ganddynt yn cael ei

adael yn ddiogel gan fod plant yn chwarae arno.

- Argraffu 8,000 o bamffledi gyda gwybodaeth am lwybrau'r ardal.

- Torri'r un llwybrau ag arfer er na fydd Cyngor Gwynedd yn ad-dalu'r gost yn llawn eleni.

Peidio gwrthwynebu'r ceisiadau cynllunio canlynol:

Adeiladu dau dŷ newydd - Llain o dir cyfagos i Pen y Buarth, Llanrug

- Cais i ddymchwel yr estyniad presennol a chodi estyniadau pellach a chodi adeilad allanol ar gyfer storio gweithgareddau hobi - Cae Rhydu, Pontrug.

- Cais llawn i greu pwll gwanhau fel rhan o system suds i'r datblygiad tai cyfagos - llain o dir cyfagos i Pen Cae, Ffordd Llanberis, Llanrug.

- Rhoi grant o £650 i Glwb Pêl-droed Llanrug Unedig.

GWASANAETH GOFAL CARTREF Caredig cyf

GOFALU AM EIN CYMUNEDAU

- ASESU MEWNOL A CHYNLLUN GOFAL

- GOFAL PERSONOL-BATHIO

- CYMORTH I GODI A MYND I'R GWELU

- EISTEDD YN YSTOD Y DYDD A GYDA'R NOS

- GLANHAU • SIOPA • COGINIO • OWTIN

- CEFNOGI POBL

- CYSYLLTU A GWASANAETHAU ARBENIGOL

A ydych yn hoffi gweithio a phobl neu ffansi gyrfa newydd?

• Mae Caredig Cyf yn awyddus i gyflogi pobl lleol i weithio gyda'n cwmni. Mae hyfforddiant a chefnogaeth trwydyl ar gael. Rydym yn recriwtio yn gyson fel mae'r cwmni yn ehangu ac angen gweithwyr i weithio unai rhan amser, amser llawn neu gyda'r nos. Am fanylion pellach cysylltwch a-

Iola neu Ellis Wyn Jones ar-

Bangor 01248 672622 • Llun i Gwener • Oriau'r Swyddfa 9-5pm.

UNED F3 • INTEC • FFFORDD Y PARC • PARC MENAI • GWYNEDD LL57 4FG

FFON-01248 672622 • FFACS- 01248 672601

EBOST- post@caredig.com



J.M. JONES
a'i Feibion
LLANRUG

Gwaith Coffaol

Ffon Gwaith
01286 672898

Cartref
01248 679089

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA



Ar Ben Arall y Lein

Be all rhywun ddweud, tybed? 'Sgota'r afonydd bron yn amhosib, wel bron iawn! Y diwrnod o'r blaen roedd dau o America wrthi'n brysur yn taflu pluen i lawr Crawia - dyna ydi 'sgotwrs go iawn - allan yn trio eu gorau, dim gwahaniaeth am y tywydd na'r ychydig ddŵr, dim y cwyno cyson rwy'n glywed yn lleol oherwydd y sychdwr.

Un nodyn positif ar ein afonydd yw fod rhy ychydig o sewin wedi dechrau rhedeg. Mae rhai wedi eu gweld ar y Seiont cyn belled â Glanrafon ac, fel y disgwyl, mae rhai da ym mhyllau gwaelod y Llyfni. Tydw i ddim wedi clywed am neb wedi bachu, fodd bynnag.

I droi at y llynnoedd, mae rhain mewn hwyliau da ofnadwy, gyda Cwellyn yn garedig iawn, yn enwedig i'r rhai sy'n rhoi tro arni gyda'r nos. Pen ucha'r llyn, ble mae'r afon yn rhedeg i mewn, a hefyd y caeau ger Bron Fedw yw'r lle i fod. Wrth gwrs, llyn wedi ei reoli fel cronfa ddŵr ydi Cwellyn, felly gyda'r tywydd poeth mae mwy o alw am ddŵr ac felly mae'r lefel yn gollwng yn eitha cyflym. Canlyniad hyn yw ei bod yn amhosib dod â'r cychod allan o'r doc.

Mae Nantlle hefyd yn rhoi tro go dda eleni eto, gyda'r cychod yma yn hynod o boblogaidd. Does dim newydd eto fod y sewin wedi cyrraedd yma, mae eisiau cryn law cyn iddynt allu goresgyn Pistyll, rhacadr go serth sydd ychydig yn i lawr y Llyfni o Llyn Tro.

Tydw i ddim wedi clywed fawr o be sy'n digwydd ar Padarn, ond byddaf yn rhoi tro arni i chwilio am y torgoch wythnos nesaf, os dalith hi'n braf ydi hynny. Mae'n hynod o ddifyr ar y cwch ym mhen ucha'r llyn. Byddaf yn cychwyn arni o Penllyn tua 6.30 yn y bore, ac mae rhyw welediad gwahanol i'w gael o'r Wyddfa, Castell Dolbadarn a'r ardal gyfagos pan mae rhywun ar wyneb y dŵr. Mi fyddaf o hyd yn cael fy syfrdanu gyda'r olygfa o'r ardal o'm cwrmpas yn deffro. Y cyntaf fydd mwg yn codi o ambell simdde, a'r amser yma o'r bore pan mae pobman yn dawel, mae'n bosib arogl coed yn llosgi. Yna bydd y trenau stem yn y Gilfach Ddu a Gorsaf y Wyddfa yn deffro gyda'r mwg a'r stêm yn araf godi drwy'r coed. Ar adegau gwelaf yr Hebog Tramor yn gwibio bron drwy'r tonnau am ei gartref yn Chwarel Vivian. Wrth gwrs, os

bydd rhywun yn ffodus, efallai y bydd torgoch neu rhyw frithyll neu ddau yn y rhwyd i ddod adref i'r badell.

Ia, yn gynnar iawn ar fore fel hyn y cefais frithyll tri phwys a hanner wrth aber yr Afon Goch, a coblyn o neb o gwmpas. Dyna nefoedd ichi, ac adref erbyn paned ddeg.

Mae llyn Dywarchen, fel y disgwyl, yn profi eleni eto yn hynod o boblogaidd. Mae rhai o Ffrainc, yr Almaen, Awstria, yr Eidal ag America wedi blasu ei ddyfroedd. Diolch o galon i'r criw bach ffyddlon sydd wrthi mor galed yn gofalu am y stocio, safon y cychod a hefyd y gwaith cynnal eithriadol sy'n mynd ymlaen yn dawel bach yn y cefndir.

HUW PRICE HUGHES

CAPIAU'N CYNHYDDU

Dyna yw hanes Gerallt Jones o'r Ddôl, Bethel, gan ei fod erbyn hyn yn aelod selog o dîm Pêl-Fasged Cymru. Ar ôl blwyddyn brysur o deithio'r A470 ar gyfer yr ymarferiadau i garfan genedlaethol Cymru yng Nghaerdydd, daeth y newyddion da. Mae wedi ei gynnwys yn y garfan o 12 ar gyfer Pencampwriaeth Ewrop draw yn Andorra ym mis Gorffennaf. Dyma wireddu breuddwyd i Gerallt, ac yn goron ar yr holl ymdrech dros gyfnod o amser. Cyn mynd i Andorra bydd yn teithio i Ddilyn i wynebu'r Gwyddelod. Eisoes mae wedi chwarae yn erbyn Lloegr. Ar lefel ieuenctid bu'n cynrychioli timau dan 16 ac 18 Eryri yng Nghynghrair Gogledd Cymru.

Mae'n aelod hefyd o dîm y Glyndwr Nets, ardal Wrecsam sy'n cystadlu yng Nghynghrair Genedlaethol Lloegr gyda'r rhan fwyaf o'r gemau yn ardal Lerpwl a Manceinion. Dyma enghraifft ryfeddol o ymroddiad rhywun o ardal wledig yn gwireddu breuddwyd trwy ddyfalbarhad a chefnogaeth parod ei rieni. Dymunwn yn dda iddo yn Andorra, a gobeithio caiff gyfle i sgio ar y llethrau gwych sydd yno.

Dringo Mont Ventoux – ar feic



Ar ddechrau Mehefin aeth Aled Roberts o Lanrug drosodd i Ffrainc i gymryd rhan yn ras La Mont Ventoux Master Cycle Sportive; ras o 104 o filltiroedd drwy ardal Provence gan gynnwys y mynydd anferth, Mont Ventoux. Mae Aled yn aelod o Glwb Beicio Rhos on Sea, ac yr oedd dau o'i ffrindiau hefyd yn cystadlu, sef Mike Burns o'r un clwb, a Gareth Hind o Glwb Rasio Mona.

Mae cwblhau'r ras yn uchelgais i amryw, gan ei bod yn cael ei chyfrif yn hynod o galed. Yn ogystal â'r pellter, mae'n golygu dringo Mont Ventoux unwaith ar ddechrau'r ras, ac yna dringo dwy ran o dair ohono eto ar ddiwedd y ras – pan fo'r corff a'r coesau yn hynod flinedig. Ac nid yw'r tywydd poeth yn ystod Mehefin yn y rhan hon o Ffrainc yn rhywbeth i'w groesawu gan feicwyr wedi arfer â gwynt a glaw Eryri chwaith!

1,909 metr yw uchder Mont Ventoux – bron i ddwywaith uchder yr Wyddfa. Byddai ei ddringo unwaith yn ddigon, ond roedd ei ddringo bron iawn i gyd am yr eildro yn ddigon i dorri calon llawer. Gan gynnwys bryniau a gelltydd eraill yn ystod y ras, roedd yn golygu fod Aled a'i ffrindiau wedi dringo tua 12,500 troedfedd yn ystod y 104 o filltiroedd.

Roedd y diwrnod yn cychwyn am hanner awr wedi wyth yn y bore, ac Aled wedi llenwi pocedi cefn ei grys â bananas a jeli bebais (ynni a siwgr) – a gêrs beic, jyst rhag ofn! Ac er fod Aled wedi bod yn paratoi ar gyfer y diwrnod hwn ers mis Hydref y llynedd, doedd dim profiad ganddo o ymdopi â'r fath wres wrth reidio beic: 40

gradd ar ei boethaf, a chyfartaledd o 33 gradd gydol y dydd.

Roedd y cannoedd beicwyr oedd yn cymryd rhan yn cael eu 'gwobrwyo' yn ôl yr amser i gwblhau'r ras. Gorffennodd Aled yn safle 278 mewn amser o 8 awr 15 munud ac 18 eiliad ac ennill iddo'i hun y categori arian. Roedd pob beiciwr oedd yn cwblhau'r cwrs rhwng saith awr a hanner ac wyth awr a hanner yn cael eu gosod yn y categori hwn. Rhai cyflymach na saith awr a hanner oedd yn ennill yr aur. Roedd yn rhaid gorffen o fewn naw awr a hanner i ennill yr efydd – ac yr oedd cannoedd wedi methu. Dywedodd Aled fod beicwyr wedi ymlâdd yn gorwedd ar ochr y ffordd pan oedd ef yn dringo'r Ventoux am yr eilwaith – a dim ond ar y ddringfa gyntaf roedd y creaduriaid blinedig rheini!

Roedd Mont Ventoux yn denu cymaint o feicwyr o bob rhan o Ewrop oherwydd ei enwogrwydd yn ras y Tour de France. Ar lethrau'r mynydd hwn y bu'r beiciwr Prydeinig enwog, Tom Simpson, farw yn ystod y Tour de France yn 1967, ac y mae cofeb iddo wedi ei gosod ar ochr y ffordd i fyny'r mynydd.

Dywedodd Aled fod y profiad o fod yn rhan o'r fath ras yn 'brofiad bythgofiadwy'. Mae'n ystyried cystadlu eto – a gobeithio am yr aur y tro nesaf. Ond mae hefyd wedi rhoi ei fryd ar gystadlu mewn rasys enwog eraill hefyd megis y Marmotte a'r Etape De Tour. Yn y cyfamser, yn ôl i feicio ffyrdd a gelltydd gogledd Cymru fydd hi i baratoi am antur arall y flwyddyn nesaf.

CHWARAEON

TLWS YR ECO 2011

Siomedig iawn fu'r gynrychiolaeth yn yr adran dan 9 eleni. Dim ond 4 tîm ddaeth i Gae'r Ddôl, Llanberis. Trueni oedd hyn gyda'r cyfleusterau a'r trefniadau i'w canmol. Y timau oedd Llanberis, Bethel a dau o Lanrug. Pawb yn herio'i gilydd felly a chafwyd gemau safonol iawn. O ble mae'r ardal yma yn darganfod cyn gymaint o gôl-geidwaid mor safonol. Oes ffatri yng nghrombil yr Elidir yn rhywle. Yn sicr mae safon y pasio wedi gwella, prin iawn oedd y gig a chwrs. Hefyd braf gweld nifer o'r ieuenctid yn gyfforddus reoli a thrin y bêl.

Wedi ennill eu tair gem grŵp, Llanberis oedd y ffefrynnau. Unochrog oedd y rownd derfynol gyda'r tîm cartref yn hyrddio llu o ymosodiadau at gôl Bethel. Dim ond, un eiliad wan ac Adam Fletcher yn ennill y tlws i Bethel gydag unig gôl y gêm.

Ni chaed siom yn y gystadleuaeth dan 11, gyda pob pentref yn cael ei gynrychioli. Cafwyd gwledd o bêl-droed, ymysg y gorau eto yn fy marn i. Ar ôl i bob tîm chwarae eu chwe

gêm roedd gan Ddeiniolen 14 pwynt, Bethel 'A' 12 pwynt., Llanrug 'B' 10 pwynt., Llanrug 'A' 9 pwynt., a Llanberis 8pwynt. Ie, roedd pawb yn curo ei gilydd. Deiniolen i herio Bethel felly yn y ffeinal.

Am gêm, o un ochr i'r llall ac eto dau gôl-geidwad da. Gair hefyd am ddyfarnu penigamp Mike Williams - y 'Collina' newydd - drwy'r nos. Hefyd diolch i Kevin a Steff am eu dyfarnu nhw dros y ddwy noson. Fel yn y gêm dan 9 roedd un gôl yn ddigon i gipio'r tlws. Gwydion Morris rwydodd i Ddeiniolen, ac rwy'n siŵr bod cyn falchder yn ymddangosiad y tlws yng ngharnifal y pentref y diwrnod canlynol.

Pam dwi'n cario ymlaen gyda'r gystadleuaeth? Neges gan un o'r rhieni yn dweud, 'Diolch Rich, mae'r tri o'r hogia 'cw wedi chwarae yn y gystadleuaeth dros y 12 mlynedd diwethaf.' Onid cynrychioli tîm pentref a bro yw hanfod yr hen gystadleuaeth yma? Gobeithio'n wir. Diolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd eto eleni.

PENCAMPWR BEICIO



Anaml iawn y cawn adroddiadau am gystadlaethau beicio yn yr 'Eco', ond mae'r gamp hon yn hynod boblogaidd yn yr ardal hefyd, ac ambell unigolyn yn gwneud enw iddo'i hun yn lleol ac yn genedlaethol. Eiso es cawsom hanesion rhai o'r beicwyr sy'n cystadlu yn y rasys triathlon.

Y tro hwn, braf yw cael adrodd am lwyddiant cenedlaethol Gareth McGuinness o Lanrug. Daeth o fewn trwch blewyn i gipio Pencampwriaeth Rasio Ffordd Cymru yn Y Fenni yn ddiweddar. Mewn ras o dros 75 milltir, daeth Gareth yn ail,

fodfeddi yn unig y tu ôl i feiciwr proffesiynol pedair ar hugain oed. A'r hyn sy'n rhyfeddol yw fod Gareth bellach dros 40 oed - oedran sy'n cael ei gyfrif yn hen i feicwyr.

Cychwynnodd reidio beic o ddifrif tua deng mlynedd yn ôl, a dyma ei bumed flwyddyn o rasio, sy'n cynnwys rasys ar y ffordd a threialon amser. Dyma ei dymor mwyaf llwyddiannus hyd yn hyn - ac y mae hanner y tymor i ddod eto! Mae'n ymarfer yn rheolaidd - tua deg i bymtheg awr yr wythnos - a hynny ar ôl diwrnod o waith. Mae'n cydnabod fod y diddordeb mewn beicio wedi



TÎM BETHEL - enillwyr dan 9 oed



TÎM DEINIOLEN - enillwyr dan 11 oed

cynyddu'n arw dros y blynyddoedd diwethaf, a llawer o feicwyr yn cymryd rhan yn wythnosol mewn treialon amser. Hyd yn hyn eleni, mae Gareth wedi ennill deg o'r rhain, gan dorri'r record mewn chwech ohonynt. Un o'r treialon amser rheini oedd cwrs o Lanberis i fynyr bwlch, i lawr Dyffryn Mymbyr i Gapel Curig cyn troi ar yr A5 am Fethesda ac yna anelu'n ôl i Lanberis drwy Bentir. Roedd y cwrs cyfan yn 31 milltir. Cwblhaodd Gareth y cwrs mewn awr, 16 munud ac 16 eiliad; dros wyth munud ar y blaen i'r beiciwr nesaf, a record newydd i'w ganlyn. Cysidwrch faint o amser a gymerai i'r rhan fwyaf ohonoch gwblhau'r cwrs hwn mewn car!

Ond nid llwyddiannau lleol yn unig sy'n dod i'w ran. Mae'n teithio i wahanol rannau o Brydain i gystadlu mewn rasys sy'n amrywio mewn pellter o 60 milltir i 100 milltir.

Yn ogystal a'i ail bendigedig yn Y Fenni ym mhencampwriaethau Cymru, teithiodd i ogledd Lloegr ganol fis Mehefin. Mewn ras yn Kendal, swydd Cumbria, bu'n beicio 70 milltir ar gwrs yn llawn gelltydd, ac mewn tywydd echrydus. Ond talodd ei ymarfer cyson ar ffyrdd serth Eryri ar ei ganfed iddo. Ymosododd gydag un lap i fynd, gan ennill y ras o ddau funud a chipio Cwpan Coffa Bob Swails.

Ei obaith mawr yn ystod mis

Awst yw cael teithio i Awstria a chael cystadlu ym Mhencampwriaethau Beicio'r Byd i rai dros 40 oed.

Ras yr Wyddfa

Y newyddion pwysicaf ym myd y rhedwyr mynydd yn ystod y mis diwethaf yw'r ffaith fod Pencampwr Rhedeg

Mynyddoedd y Gymanwlad, Wilson Chemweno yn cystadlu yn Llanberis fis Gorffennaf. A'r cwestiwn ar wefusau pawb yw: a fydd y record yn debygol o gael ei thorri? Gallai fod yn ras hanesyddol, oherwydd y gŵr sydd wedi ei wahodd i gychwyn y ras yw Kenny Stuart, yr union redwr sy'n dal y record ers 1985. Ond bydd angen rhedwr go arbennig i dorri'r record honno, ac y mae cymaint yn dibynnu ar safon y cystadleuwyr eraill ac ar yr amgylchiadau ar y diwrnod.

Ar wahân i'r goreuon, bydd nifer helaeth o redwyr lleol hefyd yn cystadlu - rhai ohonynt am y tro cyntaf - a phob un yn gobeithio torri eu record bersonol eu hunain.

Mae'r diddordeb mewn rasio mynydd ar gynydd, fel y dengys y ffaith fod dros ddau gant o redwyr gwahanol wedi cystadlu ym nghyfes nos Fawrth Great Arete dros y misoedd diwethaf. A'r hyn sy'n galonogol yw'r nifer o blant a phobl ifanc sy'n mwynhau'r gamp. A bydd rasys ar eu cyfer hwythau hefyd ar ddiwrnod Ras yr Wyddfa.